# Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

# Adroddiad Cryno 2023




## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad ........ 2
2.0 Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig ........ 2
    2.1 Gweithredoedd strategol ........ 3
    2.2 Ymchwil ........ 4
    2.3 Dysgu ac Addysgu ........ 5
    2.4 Rhwydwaith Hyrwyddwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ........ 7
3.0 Gweithgareddau Nodau Datblygu Cynaliadwy ........ 7
4.0 Mesur cynnydd ........ 38
    4.1 Safleoedd Effaith Uwch Times ........ 38
    4.2 Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd ar gyfer Cynaliadwyedd ........ 38
    4.3 Llais y Myfyrwyr ........ 39

# 1.0 Cyflwyniad

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth o ran cynaliadwyedd ac i wella ein perfformiad amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynhwysol, cynaliadwy a chadarn i'n cymuned gan sicrhau buddiannau amgylcheddol i Gaerdydd a Chymru yn ogystal â'r byd ehangach. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n gwerthoedd ac er mwyn ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ym mhob agwedd ar ein gweithgareddau academaidd a'n gwasanaethau gweithredol.

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) a fabwysiadwyd gan holl Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn 2015, yn alwad frys i bob gwlad weithredu mewn partneriaeth fyd-eang. Maent yn cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith o roi diwedd ar dlodi ac amddifadedd eraill fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, sy'n lleihau anghydraddoldeb, ac yn sbarduno twf economaidd. Mae'n rhaid i hyn oll ddigwydd ar yr un pryd â'r gwaith o fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r gwaith i ddiogelu ein cefnforoedd a'n coedwigoedd.

Mae ein gweithredoedd hefyd yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd wedi'i fframio gan saith nod llesiant, ac mae ei chwmpas yn dangos cyseiniant clir gyda'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddarparu diben cyffredin cyfreithiol i lywodraethau cenedlaethol a lleol, byrddau iechyd lleol, a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n manylu'r ffyrdd mae'n rhaid iddynt weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru.


Rydym yn ymroddedig i wreiddio cysyniad cynaliadwyedd fel a fframiwyd gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

# 2.0 Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig

Yn llofnodwyr cytundeb y Nod Datblygu Cynaliadwy, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ein prosesau academaidd a busnes, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Yn rhan o'r Cytundeb, mae'n ofynnol i ni gwblhau arolwg blynyddol. Mae'r arolwg yn manylu ar ein gwaith yn ymgorffori'r 17 NDC yng ngweithgareddau addysg, ymchwil, arweinyddiaeth, gweinyddu ac ymgysylltu'r Brifysgol ac yn ei gweithrediadau.

Rydym hefyd yn cymryd rhan yn Safleoedd Effaith THE yn flynyddol, a hyd yma rydym wedi cyflwyno i 10 o'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy. Ein bwriad yw cynyddu nifer y Nodau Datblygu Cynaliadwy rydym yn adrodd arnynt yn y rhestrau, fel a gynigir yn y tabl isod. Am y tro cyntaf, mae'r adroddiad hwn yn ystyried ein gweithgareddau sefydliadol ar draws pob un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

**Cwmpas adroddiadau Prifysgol Caerdydd i Safleoedd Effaith THE**




Mae’r gweithgareddau yr adroddir arnynt isod yn ymwneud â gweithredoedd strategol, ymchwil ac addysg.

## 2.1 Gweithredoedd strategol

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd wrth ymgorffori’r nodau i weithredoedd strategol, gan gynnwys nifer o strategaethau a Pholisïau allweddol gan gynnwys: Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol, is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr; is-strategaeth y Genhadaeth Ddinesig; Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth (ERBAP); Strategaeth Gaffael; Polisi Bwyd Cynaliadwy; Strategaeth Lles; Datganiad Polisi Iechyd, Diogelwch, Lles a’r Amgylchedd a’r Strategaeth Ystadau sy’n Gwella.

Mae Strategaeth Ystadau sy’n Gwella 2023-25 yn gosod ein taith i greu ystâd sy’n cael ei chynnal yn well, sy’n hygyrch ac yn gynaliadwy ac sy’n adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio. Ynddi, ceir pedair egwyddor sy’n llywio ein penderfyniadau:

- Strategol – Bydd ein hystâd yn cefnogi nodau strategol y brifysgol o ran ei maint a’i diwyg, profiad y myfyrwyr, a ffocws ein hymchwil
- Cynaliadwy – Bydd pob prosiect yn cyfrannu at ein targedau ar gyfer Sero Net i fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030
- Effeithlon – Bydd y lle’n cael ei gynnal a'i gadw'n briodol, bydd cyfanswm y gofod yn cael ei leihau a’i ddefnyddio’n well
- Teg – Bydd ein hystâd yn un hygyrch, a bydd dyraniad y gofod yno’n deg ac yn dryloyw gan gyfeirio at normau cydnabyddedig lleoedd gwaith.

Croesawyd nifer o swyddi newydd i’r tîm Cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn academaidd gan gynnwys Rheolwr Carbon Sero Net, mae hon yn swydd newydd a bydd yn canolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiadau carbon sero net. Croesawyd hefyd Swyddog Bioamrywiaeth a fydd yn arwain ar waith y Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth (ERBAP), yn ogystal â Rheolwr Lleihau Gwastraff.

Datblygwyd map trywydd caffael cynaliadwy yn nodi beth fydd yn digwydd dros y tair blynedd nesaf, gan edrych ar bolisi gwerthuso cynaliadwy, gwerthuso cwmpas 3, adolygu’r broses dendro, hyfforddiant i staff, a chyfathrebu’r gwaith da a wneir.

Rydym wedi lansio pum sefydliad arloesi ac ymchwil i ddarparu gwaith ymchwil ag effaith fyd-eang, gan ddod ag academyddion o ystod o ddisgyblaethau ynghyd i fynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf sy'n wynebu cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Dadorchuddiwyd y sefydliadau rhyngddisgyblaethol mewn digwyddiad yn y Sefydliad Brenhinol mawreddog yn Llundain a oedd yn gyfle i arddangos ein gwaith ac archwilio meysydd o gydweithio posibl gyda sefydliadau eraill. Mae rhagor o wybodaeth yn adran 2.2.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus LEAF (Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai), cyflwynwyd y rhaglen i bob maes yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, gyda'r bwriad o geisio achrediad yn y blynyddoedd i ddod. Offeryn hunanasesu ar-lein sy'n hawdd ei ddefnyddio yw LEAF. Mae'n cynnwys cyfres o feini prawf a luniwyd yn benodol i wella a chefnogi cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ymchwil ac addysgu. Mae'r prifysgolion sy'n cymryd rhan yn cwblhau llyfr gwaith gyda'r nod o gael achrediad Efydd, Arian ac Aur yn eu trefn. Mae gan bob lefel nifer o gamau gweithredu i ddefnyddwyr labordai eu cyflawni er mwyn arbed gwahanol adnoddau gan gynnwys plastigion, dŵr ac ynni. Y nod yn y pen draw yw lleihau allyriadau carbon labordy a chreu diwylliant sy'n cefnogi safon yr ymchwil. Ymhlith y meysydd eraill sy'n rhan o LEAF mae effeithlonrwydd cyfarpar, caffael, rheoli cemegol, a theithio at ddibenion busnes.

## 2.2 Ymchwil

Ym mis Awst 2022 lansiwyd pum endid strategol i uno doniau ac arbenigedd ar draws disgyblaethau ac i weithio ar heriau byd-eang ym maes data mawr, yr amgylchedd, iechyd a diogelwch. Mae'r Sefydliadau Ymchwil ac Arloesedd hyn yn canolbwyntio ar ymchwil graddfa fawr hynod ryngddisgyblaethol, ac wedi'u halinio'n gryf â'n cryfderau ymchwil ac arloesedd mawr ac yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy 3, 9, 10, 13, 16 ac 17.

**Mae'r <u>Sefydliad Arloesi er Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl</u>** yn mynd i'r afael â'r cyfle digynsail sy'n bodoli ar hyn o bryd i integreiddio genomeg, niwrowyddoniaeth drosi, a seicoleg i drawsnewid dulliau diagnosis a thrin salwch meddwl, a manteisio ar arbenigedd yn y meysydd hyn i hybu arloesi mewn niwrowyddoniaeth a iechyd meddwl, gan ymgysylltu â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol a gyrru ymchwil, buddsoddiad a datblygiad yn y rhanbarth yn ei flaen. Mae gwaith y sefydliad yn astudio hyd oes bywyd, o blentyndod i henaint, gan gynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol fel anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac awtistiaeth, y prif anhwylderau seiciatrig ymhlith oedolion fel sgitsoffrenia, anhwylder deubegwn, epilepsi a dystonia, ac anhwylderau niwroddirywiol fel clefyd Alzheimer, clefyd Huntington a chlefyd Parkinson.

<u>Mae'r **Sefydliad Arloesi Sero Net**</u> yn llunio ein dyfodol cynaliadwy drwy ddod â'r meddyliau ymchwil mwyaf dawnus, blaengar ac amlddisgyblaethol at ei gilydd. Mae ymchwil y sefydliad yn seiliedig ar dri pheth allweddol – deall yr **adnoddau** sydd ar gael i ni i gyrraedd sero net; gofyn a oes modd **lliniaru** yr effeithiau ar yr hinsawdd drwy ddefnyddio gwyddoniaeth a pheirianneg; a chefnogi'r cyfnod **pontio** hirdymor i economi wyrddach.

Lansiodd y Sefydliad hwn Rwydwaith Ymchwil i Iechyd y Blaned (NDC 10) y Brifysgol ym mis Tachwedd. Sefydlwyd Grŵp Cynghori gyda chynrychiolaeth o Golegau'r Brifysgol (a'r rhan fwyaf o Ysgolion) a fydd yn helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau'n aros yn drawsddigyblaethol wrth eu gwraidd. Cynhaliwyd y digwyddiad ffurfiol cyntaf ar 2 Tachwedd 2022 – dan yr enw Blaenoriaethu Ymchwil yn y Dyfodol ar Iechyd y Blaned – lle bu tua 30 o bobl yn bresennol i drafod tri maes penodol ar sail eu pwysigrwydd gan UKRI (Atebion Integredig, Trawsnewidiadau Teg, Risg).

Mae’r **Sefydliad Arloesi er Diogelwch, Troseddau a Chudd-wybodaeth** yn canolbwyntio ar ‘sut mae ‘data-eiddio’ cymdeithas, a dyfodiad technolegau newydd, yn ysgogi bygythiadau diogelwch newydd ac yn creu tactegau a thechnolegau newydd i’w rheoli’.
Mae gan y sefydliad dair prif thema sy’n mynd i’r afael â’r her hon:

- Deallusrwydd Artiffisial a Gwyddor Data ar gyfer Amddiffyn – sut mae deallusrwydd artiffisial a thechnegau gwyddor data perthynol yn trawsnewid dyluniad a darpariaeth strategaethau a thechnegau amddiffyn;
- Twyllwybodaeth, Cyfathrebu Strategol a Deallusrwydd Ffynhonnell Agored – ymchwilio i achosion cymdeithasol a gwleidyddol a chanlyniadau camwybodaeth/twyllwybodaeth o ran gwrthdaro a risgiau geowleidyddol; a
- Troseddau, Trais a Phlismona – dadansoddi risgiau a bygythiadau esblygol a pharhaus y mae’r system cyfiawnder troseddol yn mynd i’r afael â nhw.

Mae’r **Sefydliad Arloesi Trawsnewid Digidol** yn canolbwyntio ar atebion ymarferol i’r byd go iawn gan ddefnyddio cydweithrediadau a phartneriaethau, ac mae’r sefydliad yn cynnal ymchwil bellgyrhaeddol fel y bydd modd llunio, defnyddio a mabwysiadu prosesau digidol newydd mewn ffyrdd tryloyw, cynhwysol a diogel. Yn allweddol i hyn mae’r rhyngweithio rhwng pobl, prosesau a thechnolegau, ac mae’r sefydliad wedi meithrin nifer o bartneriaethau gwerthfawr gydag arweinwyr y diwydiant, gan gynnwys DSV Solutions, Thales, ac Airbus.
Mae’r sefydliad yn gartref i Ganolfan Hartree Hyb Caerdydd, sef menter newydd ledled y DU gwerth miliynau o bunnoedd, a ariennir gan STFC ac a lansiwyd ym mis Mehefin 2023. Ei nod yw cefnogi busnesau bach a chanolig i archwilio a mabwysiadu technolegau newydd a datblygol mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion, ac yn annog twf, cynhyrchiant, a gwytnwch busnes.

**Mae'r Sefydliad Ymchwil Imiwnedd Systemau** yn ganolfan arbenigedd ar gyfer imiwnoleg ac imiwnotherapi, gyda ffocws ar ganser, clefydau heintus, clefydau llidiol imiwn-gyfryngol, a chymhlethdodau cysylltiedig. Mae’n ymroddedig i arwain ymchwil arloesol sy'n trawsnewid y ffordd y bydd cleifion yn cael diagnosis a’u trin yn ogystal â safon eu bywyd.
Ei huchelgais yw gwella iechyd y cyhoedd yn y dyfodol drwy ddatblygu diagnosteg a thriniaethau newydd a gwell ar gyfer clefydau, ac addysgu'r cyhoedd a'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr. Mae’r sefydliad yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddarparu addysg a fydd yn helpu i leihau achosion o drosglwyddo heintiau, ac yn gweithio’n agos gyda grwpiau cleifion ar therapïau imiwnedd y dyfodol mewn clefydau sy’n amrywio o gyflyrau llidiol i ganser. Drwy bartneriaethau diwydiannol, cwmnïau deillio a mentrau, mae’r sefydliad yn gosod Cymru yn ganolog i arloesedd ym maes imiwnotherapi, gan wneud gwahaniaeth i gleifion yn ogystal â chyfrannu at dwf economi Cymru.

## 2.3 Dysgu ac Addysgu

Yn sefydliad Addysg Uwch eang iawn ei bynciau, mae gan Brifysgol Caerdydd ystod sylweddol o raglenni addysg ffurfiol ar lefel Israddedig, Ôl-raddedig a Addysgir ac Ymchwil Ôl-raddedig sy'n cyfrannu at sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae gennym hefyd ystod o fentrau anffurfiol ar waith sy'n cefnogi'r gwaith hwn, fel **prosiect y Porth Cymunedol**, **Prosiect Treftadaeth CAER** a **Syniad**. Fodd bynnag, mae ein harweiniad addysgol wedi cydnabod y gellid ystyried bod ein hymgysylltiad â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn bocedi o ymarfer fel petai, dan arweiniad unigolion, a hynny oherwydd absenoldeb cefnogaeth strategol. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, adolygodd ac ail-fframiodd y brifysgol ei strategaeth prifysgol:

***Ail-lunio'r Ffordd Ymlaen:*** *Ein Gwerthoedd: Cynaliadwyedd amgylcheddol*

*Rydym yn hyrwyddo addysg ynghylch cynaliadwyedd ac yn galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig ein targed o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.*

Cefnogir ac atgyfnerthir hyn drwy'r gwaith o wella is-strategaethau amgylcheddol, ac is-strategaeth addysg a phrofiad myfyrwyr.

***Is-Strategaeth Addysg a Phrofiad Myfyrwyr:***

- *Fe fyddwn yn cael ein hadnabod yn Brifysgol sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd ym maes addysg ac yn ymgorffori cynaliadwyedd i faes addysg, gan alluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n hamgylchedd.*
    - *Creu cyfleoedd i archwilio sut mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gysylltiedig â dysgwyr a'r ddisgyblaeth y maent yn ei hastudio, fel y nodir yn y Strategaeth Galluogi Cynaliadwyedd Amgylcheddol*
    - *Sicrhau bod ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu sy'n arfogi myfyrwyr ar gyfer pa bynnag lwybr y maent yn ei ddilyn ar ôl graddio, gan gynnwys mwy o integreiddiad ac amlygrwydd priodweddau graddedig a chyflogadwyedd ym mhob rhaglen; cyrsiau ledled y brifysgol mewn ystod ehangach o sgiliau, er enghraifft dulliau meintiol, sgiliau digidol ac ieithoedd.*

Cefnogwyd y camau strategol hyn gan arweinyddiaeth newydd yng nghyd-destun Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (Deon Addysg) ac mae'n cael ei lywio gan eu rôl fel cadeirydd Grŵp Cyfoedion Thematig Cymdeithas Prifysgolion Ewrop ar gynaliadwyedd amgylcheddol dysgu ac addysgu (Gwilliam J A a Peterbauer H, 2021[1]). Mae hyn wedi sicrhau bod y gwaith o ddrafftio cynllun gweithredu cynhwysfawr yn gallu digwydd. Mae'n gynllun sy'n ceisio datblygu ein hymgysylltiad addysgol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, i ymgyrraedd tuag at weithredu integredig ar draws y sefydliad. Dros y pum mlynedd nesaf ein nod yw:

- Cychwyn gweithgareddau i gefnogi esblygiad yr agenda hon ac ar gyfer ei hymgorffori yn Addysg CU
- Adroddiad blynyddol ar ymgysylltu ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ac â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

[1] Gwilliam J A a Peterbauer H (goln) (2021). Cynaliadwyedd amgylcheddol dysgu ac addysgu: DYSGU AC ADDYSGU PAPUR #14 Adroddiad Thematig Grŵp Cyfoedion.

- Hyfforddiant ar gyfer Staff i alluogi ymgysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy
- Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr

### 2.4 Rhwydwaith Hyrwyddwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Sefydlwyd Grŵp Llywio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (ESD) ym mis Tachwedd 2022. Mae'r grŵp hwn yn rhan o'r strwythur llywodraethu addysg sy'n adrodd i is-grŵp dyfodol llwyddiannus i fyfyrwyr y Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr. I gefnogi'r gweithgaredd hwn rydym wedi sefydlu rhwydweithiau ar gyfer Hyrwyddwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ar draws ein Colegau. Mae arolwg o arferion presennol wedi nodi dros 80 o astudiaethau achos ar draws ein Hysgolion sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o heriau byd-eang, gan alluogi ein myfyrwyr i ymgysylltu â'r berthynas rhwng eu disgyblaethau academaidd, a'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Rydym hefyd wedi sefydlu cymorth i staff ar gyfer addysgu a dysgu sy'n ymwneud ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a hynny trwy gydweithio â'r Academi Dysgu ac Addysgu. Mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth ar-lein a chyfres o weithdai i gefnogi a datblygu dealltwriaeth staff a gweithrediad Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy mewn ymarfer addysgu. Drwy'r gweithgarwch hwn, ein nod yw cefnogi staff ar lefelau amrywiol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (o ddechreuwyr i arbenigwyr), gyda rhai o'r staff mwy profiadol ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn darparu cymorth trwy gyflwyno enghreifftiau ac astudiaethau achos o'u hymarfer addysgu eu hunain.

At hynny, roedd prosiect dan arweiniad myfyriwr intern yn datblygu'r fframwaith a'r strwythur ar gyfer gweithgaredd ymsefydlu i grŵp o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf Prifysgol Caerdydd, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Mae'r prosiect yn adeiladu ar gynnig a gweithgareddau yn yr Ysgol Pensaernïaeth a'i nod yw galluogi myfyrwyr i adeiladu cymunedau ac ymdeimlad o berthyn yn eu hysgol a'u carfan yn ystod y cyfnod ymsefydlu wrth ymgysylltu â phwnc pwysig Cynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd.

## 3.0 Gweithgareddau Nodau Datblygu Cynaliadwy

| **3.1** | **NDC 1: Dim Tlodi**<br>Rydym yn cynnig rhaglenni addysgol, mentrau ymchwil, a gweithgareddau gweithredol amrywiol sy'n cyd-fynd â **NDC1** sy'n ceisio rhoi diwedd ar dlodi yn ei holl ffurfiau ym mhobman. |
|---|---|
| **Addysg:** Mae sawl cwrs academaidd a rhaglen radd Caerdydd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi, anghydraddoldebau economaidd a chyfiawnder cymdeithasol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. | |
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Mae ein rhaglenni **Cymdeithaseg, Polisi Cymdeithasol a Throseddeg** yn canolbwyntio ar anghydraddoldeb cymdeithasol, polisi cyhoeddus, a systemau lles. Mae myfyrwyr yn archwilio pynciau fel lliniaru tlodi, lles cymdeithasol, ac anghydraddoldeb mewn cymdeithas.<br>Mae'r **MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus** yn mynd i'r afael ag ymyriadau polisi sydd wedi'u hanelu at leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. |
| **Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio** | Mae sawl modiwl israddedig yn ymwneud â'r materion sylfaenol yn NDC1 Dim Tlodi, gan gynnwys CP0371 **Daearyddiaeth Ddynol ar Waith**, CP0381 **Daearyddiaethau Hil a Phŵer**, CP0152 **Mannau Ffiniol**, a CPT925 **Heriau** |

| | |
|---|---|
| | **Theorïau Trefol**. Mae'r modiwlau hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr archwilio effeithiau tlodi a chyfleoedd sy'n bodoli yn eu disgyblaeth ar gyfer gweithredu cadarnhaol. |
| **Ysgol Busnes Caerdydd** | Mae Ysgol Busnes Caerdydd wedi ymrwymo i Genhadaeth Gwerth Cyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac addysg sy'n sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd i gymdeithas. Mae rhaglenni fel yr **MBA Gwerth Cyhoeddus** ac **MSc Economeg** yn archwilio polisïau economaidd, cynhwysiant ariannol, a rôl busnesau a llywodraethau wrth leihau tlodi. Mae ffocws **Gwerth Cyhoeddus** yr ysgol yn sicrhau ystyriaeth o dlodi ac anghyfartaledd economaidd. |

## Ymchwil

Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o amrywiaeth o brosiectau ymchwil sydd â'r nod o ddeall a lliniaru achosion a chanlyniadau tlodi:

| | |
|---|---|
| **WISERD (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru):** | Mae WISERD yn cynnal ymchwil sylweddol i dlodi ac anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio ar wahaniaethau economaidd yn y DU, yn enwedig yng Nghymru. Mae eu gwaith yn llywio polisïau cyhoeddus i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. |
| **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** | Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Cynhyrchwyd cyfres sylweddol o adroddiadau ar sail tystiolaeth ar gyfer y prosiect hwn, i lywio dull Llywodraeth Cymru o liniaru tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru. |
| **Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE)** | Mae CASCADE wedi bod yn arwain ar y gwaith o werthuso'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru drwy gydol 2022-23. Bydd Gwerthusiad Incwm Sylfaenol Cymru – CASCADE (cascadewales.org) yn gwella ein dealltwriaeth o effaith a mecanweithiau darpariaeth incwm sylfaenol a bydd yn archwilio ystod o effeithiau iechyd a chymdeithasol. |

## 3.2 NDC 2: Dim Newyn

Rydym yn cefnogi **NDC 2 Dim Newyn** drwy ein rhaglenni academaidd, ymchwil, a gweithgareddau gweithredol sy'n canolbwyntio ar ddiogeledd bwyd, amaethyddiaeth gynaliadwy, a maeth, gan gynnwys:

**Addysg:** Mae nifer o'n cyrsiau academaidd yn mynd i'r afael â phynciau sy'n ymwneud â diogeledd bwyd, maeth ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Biowyddorau** | Mae ein **Cyrsiau Israddedig mewn Ecoleg a Chadwraeth** yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng arferion amaethyddol, bioamrywiaeth, a'r amgylchedd, gyda modiwlau sy'n ymdrin â chynaliadwyedd bwyd ac effaith polisïau amaethyddol ar newyn a diffyg maeth. |
| **Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio** | Mae'r rhaglen ôl-raddedig **MSc Cynaliadwyedd, Cynllunio a Pholisi Amgylcheddol** yn galluogi myfyrwyr i archwilio dimensiynau cymdeithasol a gofodol systemau bwyd, diogeledd bwyd, a llywodraethu bwyd. |
| **Yr Ysgol Meddygaeth** | Mae cwrs **Meistr Iechyd Cyhoeddus (MPH)** y brifysgol a chyrsiau iechyd cyhoeddus eraill yn cynnwys modiwlau ar faeth, maeth iechyd y cyhoedd, a diffyg maeth. |

**Ymchwil:** Cynnal ymchwil i fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd byd-eang a newyn. Mae meysydd ymchwil allweddol yn cynnwys amaethyddiaeth gynaliadwy, maeth, ac atebion polisi ar gyfer newyn.

| | |
|---|---|
| **Canolfan Bwyd Trefol a Rhanbarthol Cynaliadwy (SURF)** | Mae SURF yn cynnal ymchwil o safon fyd-eang i ddaearyddiaeth bwyd – gan roi sylw arbennig i rôl dinasoedd a rhanbarthau. Rydym yn bartneriaid ar gonsortiwm Horizon 2020 i ddatblygu llwybrau tuag at Bolisïau Bwyd Trefol a arweinir gan FOOD2030. Dan arweiniad Prifysgol Milan, eu cyd nod fydd trosi cyd-weledigaeth Cytundeb Polisi Bwyd Trefol Milan a'r cyd-ymrwymiad i bolisïau bwyd trefol integredig yn gynnydd mesuradwy a hirdymor tuag at systemau bwyd cynaliadwy. |
| **Y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsffurfio Cymdeithasol (CAST):** | Mae CAST yn canolbwyntio ar sut gall cymdeithasau drawsnewid mewn ymateb i newid hinsawdd, gan gynnwys trwy systemau cynhyrchu a dosbarthu bwyd mwy cynaliadwy sy'n mynd i'r afael â newyn. Mae eu hymchwil yn archwilio'r berthynas rhwng newid hinsawdd, arferion amaethyddol, a diogeledd bwyd. |

**Gweithrediadau Campws**: Mae Tîm Arlwyo Prifysgol Caerdydd wedi wynebu nifer o heriau, gan gynnwys heriau cadwyn gyflenwi a'r argyfwng costau byw. I gydnabod yr argyfwng costau byw, cynigiwyd opsiynau bwyd iach, maethlon am brisiau fforddiadwy i staff a myfyrwyr. Maent yn mynd i'r afael â'r cysyniad o fwyd da a dim newyn trwy amrywiaeth o weithgareddau.

| | |
|---|---|
| **Deiet Planhigion:** | Yn ystod 2022-23, gwnaed 75% o'r fwydlen Arlwyo yn fwyd planhigion, mae hyn hefyd yn cynnwys y fwydlen lletygarwch. Yn ogystal, o blith y gwerthiannau yn y categori planhigion, roedd hyd at 50% yn ddewisiadau figan, gyda nifer digynsail o werthiannau yn ystod Ionawr Figanaidd. |
| **Ffynonellau Cynaliadwy a Gwastraff Bwyd:** | Cynhaliwyd mis cynaliadwyedd ym mis Mawrth dan y thema cyrchu ffrwythau a llysiau lleol gan gyflenwyr yng Nghymru. Roedd y Farchnad Bwyd Cynaliadwy a gynhaliwyd yn ystod y mis hwn yn un o'r marchnadoedd mwyaf sydd wedi'u cynnal hyd yma. Cynhaliwyd digwyddiadau pellach yn ystod pythefnos Masnach Deg ac Wythnos Gwastraff Bwyd ar y cyd â WRAP Cymru. Yn ystod y flwyddyn, mae'r adran |

| | |
|---|---|
| | Arlwyo wedi cofrestru ar gyfer Prifysgol Masnach Deg ac ar gyfer achrediad pysgod MSC. |

| | | |
|---|---|---|
| **3.3** | **NDC 3: Iechyd a Lles Da**<br>NDC 3: Mae iechyd a lles da yn gryfder allweddol ym Mhrifysgol Caerdydd, gydag ystod eang o weithgareddau ym maes addysg, ymchwil a gweithrediadau sy'n canolbwyntio ar iechyd, y gwyddorau meddygol, iechyd y cyhoedd a lles.<br>Cyrhaeddon ni'r safle cyntaf yn y DU yn Safleoedd Effaith THE (2023). | 3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING |

| | |
|---|---|
| **Addysg:** Ar draws ein portffolio Academaidd rydym yn cynnig ystod o raglenni iechyd a lles, gyda'r nod o baratoi myfyrwyr â gwybodaeth a sgiliau i wella canlyniadau iechyd lleol a byd-eang. | |
| **Yr Ysgol Meddygaeth:** | Mae ein rhaglenni'n cefnogi myfyrwyr ar eu taith ddysgu i yrfaoedd fel meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym yn canolbwyntio ar wella iechyd unigolion a'r boblogaeth (**Baglor mewn Meddygaeth, Baglor mewn Llawfeddygaeth (MB BCh),** heriau iechyd cyhoeddus byd-eang (**Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus (MPH)**), a datblygu sgiliau addysgu uwch i wella addysg gofal iechyd **(MSc mewn Addysg Feddygol)**. |
| **Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd:** | Mae ein rhaglenni **nyrsio**, **bydwreigiaeth** a'r **gwyddorau gofal iechyd** yn hyfforddi myfyrwyr i ddarparu gofal, iechyd a lles o ansawdd uchel i gleifion, ac mae'r **MSc Ymarfer Gofal Iechyd Uwch** yn rhoi sgiliau uwch ym maes ymarfer clinigol, arweinyddiaeth a darparu gwasanaethau i nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.<br>Rydym yn un o Ganolfannau Cydweithio dynodedig Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer datblygu bydwreigiaeth, ac yn cydweithio â chanolfannau ledled y byd i helpu i gryfhau arfer da ym maes gofal iechyd. |
| **Yr Ysgol Deintyddiaeth:** | Mae iechyd y geg yn rhan hanfodol o les cyffredinol, a chaiff ei bwysleisio drwy gydol y cyfnod o baratoi myfyriwr i ddod yn ddeintydd proffesiynol ar ein cwrs **BDS Llawfeddygaeth Ddeintyddol.** |
| **Yr Ysgol Seicoleg:** | Mae datblygu sgiliau a dealltwriaeth allweddol ym maes iechyd meddwl a lles, a pharatoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaoedd mewn lleoliadau gofal iechyd, yn ffocws i'r rhaglen **BSc Seicoleg** a'r rhaglenni **PGT Seicoleg**. |
| **Yr Ysgol Fferylliaeth:** | Mae'r rhaglen **MPharm (Meistr mewn Fferylliaeth)** yn hyfforddi myfyrwyr i ddod yn fferyllwyr, gan ganolbwyntio ar rôl meddyginiaeth wrth wella iechyd a lles, ac wrth fynd i'r afael â heriau iechyd byd-eang fel ymwrthedd i wrthfiotigau. |
| **Ymchwil:** Rydym yn cynnal ymchwil arloesol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella iechyd a lles byd-eang. | |
| **Y Sefydliad Arloesi er Niwrowyddoniaeth ac** | Cymuned o ganolfannau ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddeall a gwella iechyd yr ymennydd a lles meddwl ydyn ni. Gan weithio mewn partneriaeth ar draws prifysgolion, gwasanaethau iechyd, a sefydliadau'r trydydd sector, mae'r canolfannau'n ymdrin ag ystod eang o ymchwil i helpu i ddeall yr hyn sy'n achosi problemau iechyd meddwl, i lywio diagnosis a thriniaethau gwell, ac i gyfrannu at wella bywydau pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl a niwrolegol. |

| | |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | Uned Ymchwil yr Ymennydd Canolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol Prifysgol Caerdydd<br>CUBRIC Canolfan ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig<br>Sefydliad Ymchwil Dementia Canolfan Niwrowyddoniaeth Drosi Hodge<br>Y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau Y Ganolfan Genedlaethol er Iechyd Meddwl<br>Canolfan Wolfson er Iechyd Meddwl Pobl Ifanc |
| **Ymchwil:** Rydym yn cynnal ymchwil arloesol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella iechyd a lles byd-eang**.** | |
| **Y Sefydliad Ymchwil Imiwnedd Systemau** | Mae'r sefydliad yn ganolfan arbenigedd ar gyfer imiwnoleg ac imiwnotherapi, ac yn canolbwyntio ar ganser, clefydau heintus, clefydau llidiol imiwn-gyfryngol, a chymhlethdodau cysylltiedig. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Arloesi er Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl ar y Sefydliad Ymchwil Dementia a'r Ganolfan ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig. Rydym yn falch o fod yn gartref i Uned Ymchwil Arennol Cymru, Canolfan Ymchwil Canser Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Bôn-gelloedd Canser Ewropaidd. |
| **Canolfan Ymchwil Gofal Sylfaenol a Brys (PRIME)** | Mae Canolfan PRIME Cymru yn canolbwyntio ar ddulliau o wella gofal sylfaenol a gofal brys, a throsi'r dulliau hyn i fod yn ymarferol. Rydym yn gartref i Ganolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd a chanlyniadau gofal iechyd trwy hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hefyd Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, sy'n canolbwyntio ar ymchwil i ragnodi cymdeithasol. |
| **Y Ganolfan Treialon Ymchwil** | Mae'r ganolfan yn arwain ar y gwaith o ddylunio a chyflwyno gwerthusiadau graddfa fawr o ymyriadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i hybu iechyd a lles da. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ganser, heintiau, iechyd meddwl ac iechyd y boblogaeth. |
| **DECIPHer** | Mae'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth ym maes Gwella Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd fel iechyd meddwl a lles, gyda ffocws penodol ar ddulliau system aml-lefel i gael effaith ar iechyd a lles plant a phobl ifanc. |
| **Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Digidol:** | Mae'r brifysgol yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n archwilio sut gall technolegau digidol fel telefeddygaeth, deallusrwydd artiffisial ym maes gofal iechyd, ac apiau iechyd wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. |
| **Gweithrediadau Campws:** Yn dilyn adolygiad o'r strategaeth les, derbyniodd y brifysgol wobr USHA ar gyfer Cyflawniad Iechyd a Lles (2022) a ni oedd y Sefydliad Addysg Uwch cyntaf yn y DU i ennill statws rhyngwladol ISO 45003; rydym wedi bod yn ceisio atgyfnerthu naratif cadarnhaol ymhlith staff a myfyrwyr ynghylch iechyd meddwl a lles, gan wneud cynnydd o ran: | |
| **Gweithdai Staff** | Nodwyd pen-blwydd strategaeth lles y staff ym mis Medi gyda chyfres o ddigwyddiadau am ddim, gan gynnwys cyfres o weithdai ar Feithrin eich Hapusrwydd eich Hun; Tyfu er Lles; Niwroblastigedd Cadarnhaol; a Lles ledled y byd, sy'n edrych ar arferion hunanofal ledled y byd, yn ogystal â'r menopos, COVID hir, seicoleg gadarnhaol, hyfforddiant bywyd a lles gwyrdd. |
| **Ap Headspace** | Gall myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar helpu i leihau straen, helpu i ganolbwyntio'n well a gwella patrymau cysgu. Yn 2023, gweithiodd y brifysgol â |

| | |
|---|---|
| | Headspace, sef ap poblogaidd a ddefnyddir gan dros 66 miliwn o bobl ledled y byd, i roi mynediad am ddim i staff (cynigiwyd 1,000 o lefydd i staff ar sail y cyntaf i'r felin). |
| **Lles y Staff** | Rydym yn darparu mynediad i gyrsiau sydd wedi'u dylunio i helpu i reoli, deall a hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol yn y gweithle, gan gynnwys estyniad i-Act i reolwyr, staff rheng flaen a myfyrwyr, gydag opsiwn Cymraeg a mwy o bwyslais seicogymdeithasol. Mae gennym raglen Cymorth i Weithwyr hefyd. Yn 2022-23 fe gynigiom fynediad at Care First sy'n cynnig mynediad at gwnselwyr ac arbenigwyr cymorth cymwysedig i drafod materion emosiynol, personol neu faterion yn ymwneud â gwaith. |

## 3.4 NDC 4: Addysg o Safon

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu addysg gynhwysol, deg ac o safon i bawb, gan gyfrannu at ddatblygiad addysgol ar lefelau lleol a byd-eang yn ogystal. Dyma sut mae Prifysgol Caerdydd yn cyd-fynd â NDC 4.

**Addysg:** Rydym yn cynnig ystod o raglenni gradd sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysg, wedi'u hanelu at hyfforddi athrawon, arweinwyr addysgol ac ymchwilwyr i wella canlyniadau addysgol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol:

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Rydym yn cynnig tair haen o ddysgu i helpu i baratoi myfyrwyr â'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen ar gyfer swydd ym maes addysg. Mae'r **BA Addysg** yn canolbwyntio ar ddeall egwyddorion addysg, dysgu ac addysgu, ynghyd â materion allweddol fel anghydraddoldebau addysgol, cyfiawnder cymdeithasol, a pholisïau sy'n effeithio ar ddeilliannau dysgu. Mae'r **MA Addysg** yn canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu, arweinyddiaeth addysgol, a llunio polisïau, ac mae'r **PhD mewn Addysg** yn galluogi myfyrwyr i gynnal ymchwil uwch sy'n canolbwyntio ar fynediad addysgol, ansawdd, a / neu ddiwygio polisi, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at nodau NDC 4. |
| **Ymestyn yn Ehangach** | Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o brosiect Ymestyn yn Ehangach, sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau rhag mynediad, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch. Nod y gwaith hwn yw ymgysylltu â phobl rhwng 10 ac 16 oed, ac oedolion sy'n 21 oed ac yn hŷn heb unrhyw gymwysterau addysg uwch, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr, ac sy'n byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. |

**Ymchwil:** Cynnal ymchwil flaengar ym maes addysg, sy'n hanfodol i lywio polisïau ac arferion sy'n gwella ansawdd a hygyrchedd addysg ledled y byd.

| | |
|---|---|
| **WISERD (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru):** | Mae WISERD yn ymchwilio i ganlyniadau addysgol, anghydraddoldebau, ac ymyriadau polisi. Nod ei ymchwil yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol gwahaniaethau addysgol a chyfrannu at newidiadau polisi sy'n gwella mynediad at addysg o safon, yn enwedig yng Nghymru. Mae hefyd yn archwilio effaith tlodi a ffactorau cymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol, sy'n cyd-fynd â phwyslais NDC 4 ar addysg gynhwysol i bawb. |
| **DECIPHer** | Mae'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio ar wella iechyd y cyhoedd drwy |

| | |
|---|---|
| | ymyriadau addysgol. Mae ei gwaith yn cysylltu addysg ag iechyd a lles, gan archwilio sut gall ysgolion ac amgylcheddau addysgol hybu canlyniadau gwell i iechyd, sy'n cefnogi'n uniongyrchol ffocws NDC 4 ar ddysgu gydol oes a lles myfyrwyr. |
| **Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant** | Mae CASCADE yn canolbwyntio ar bob agwedd ar ymatebion cymunedol i anghenion cymdeithasol plant a theuluoedd, fel gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwasanaethau i blant anghenus, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a mabwysiadu. Mae'r rhain yn hanfodol i gefnogi amgylchedd addysgol da i blant. |
| **Y Ganolfan Treialon Ymchwil** | Mae'r Ganolfan Treialon Ymchwil yn cynnal ymchwil sy'n gwerthuso ymyriadau i wella'r amgylchedd addysgol (e.e. lleihau bwlio, gwreiddio gweithwyr cymdeithasol yn yr ysgol) a chefnogi rhieni i wella parodrwydd am yr ysgol. |

## 3.5 NDC 5: Cydraddoldeb Rhywedd

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a grymuso menywod a merched ym maes addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth. Mae ein rhaglenni academaidd, ein mentrau ymchwil, a'n gweithgareddau sefydliadol yn mynd ati'n weithredol i gyfrannu at NDC 5.

**Addysg:** Rydym yn cynnig sawl rhaglen sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhywedd, hawliau menywod, ac astudiaethau rhywedd.

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Mae'r rhaglen **MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus** yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb rhwng y rhyweddau, gan archwilio polisïau cymdeithasol a sut gall llywodraethau a sefydliadau hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd, ac mae ein **BSc Cymdeithaseg** yn archwilio rôl rhywedd wrth lunio strwythurau cymdeithasol a sut mae anghydraddoldebau rhywedd wedi'u gwreiddio mewn agweddau amrywiol ar gymdeithas. |
| **Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** | Mae'r **LLM Cyfraith Hawliau Dynol** yn caniatáu i fyfyrwyr astudio cydraddoldeb rhywedd o safbwynt cyfreithiol, gan archwilio hawliau menywod, trais ar sail rhywedd, a fframweithiau cyfreithiol rhyngwladol ar gyfer amddiffyn a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae ein **MA mewn Cysylltiadau Rhyngwladol** yn mynd i'r afael â rhywedd yng nghyd-destun gwleidyddiaeth fyd-eang, datblygiad a hawliau dynol. Mae myfyrwyr yn archwilio sut mae rhywedd yn croestorri â heriau byd-eang fel gwrthdaro, mudo a thlodi. |
| **Yr Ysgol Seicoleg:** | Mae'r **MSc Seicoleg** yn cynnwys ffocws ar iechyd meddwl a lles, gan fynd i'r afael â materion fel gwahaniaethau iechyd meddwl ar sail rhywedd ac effeithiau seicolegol gwahaniaethu ar sail rhywedd. |

**Ymchwil:** Cynnal ymchwil sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddeall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd mewn meysydd amrywiol.

| | |
|---|---|
| **WISERD** | Mae WISERD yn archwilio anghydraddoldebau rhywedd ym maes addysg, y gweithle, a chymdeithas; gan ystyried rhwystrau rhag cydraddoldeb |

| | |
|---|---|
| | rhywedd ac ymchwilio i sut gall diwygio polisïau cymdeithasol a sefydliadau gefnogi cydraddoldeb o ran rhywedd. |
| **DECIPHer** | Mae'r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth ym maes Gwella Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio ar berthnasau iach a mynd i'r afael â thrais gan bartner agos, yn enwedig ymhlith menywod ifanc. |
| **Y Grŵp Ymchwil Rhywedd a Rhywioldeb:** | Nod y grŵp hwn yw cefnogi amrywiaeth ac ansawdd ymchwil rhywedd a rhywioldeb sy'n archwilio'n feirniadol sut mae rhywedd a rhywioldeb yn bwysig mewn ymchwil, polisi, ymarfer, addysgeg a gweithredu. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ymroddedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd yn y sefydliad, gan greu amgylchedd cefnogol ar gyfer staff a myfyrwyr o bob rhywedd: | |
| **Siarter Athena SWAN:** | Rydym yn aelod o Siarter Athena SWAN, sef fframwaith sy'n cefnogi cydraddoldeb rhywedd mewn addysg uwch. Mae'r brifysgol wedi cyflawni nifer o ddyfarniadau Athena SWAN ar draws adrannau amrywiol, gan gynnwys hyrwyddo gyrfaoedd menywod ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, meddygaeth a mathemateg (STEMM). |
| **Cydraddoldeb Rhywedd mewn Arweinyddiaeth:** | Rydym yn ymroddedig i wella cynrychiolaeth rhywedd mewn swyddi arwain. Rydym yn hyrwyddo mentrau i gau'r bwlch rhwng y rhyweddau mewn uwch swyddi. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni mentora a gweithdai datblygu i fenywod mewn arweinyddiaeth i gefnogi dilyniant gyrfa menywod. |
| **Gweithrediadau Campws:** Parhad | |
| **Mentrau Cyflog Cyfartal:** | Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio i sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal i bawb. Mae'r brifysgol yn llunio adroddiadau bwlch cyflog rhwng y rhyweddau yn rheolaidd ac mae wedi rhoi strategaethau ar waith i gau'r bwlch hwn, sy'n cyd-fynd â tharged NDC 5 o ddileu gwahaniaethau cyflog rhwng y rhyweddau. Bwlch cyflog rhwng y rhyweddau - Gwybodaeth gyhoeddus - Prifysgol Caerdydd. |
| **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd:** | Mae gan Brifysgol Caerdydd Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd sy'n amlinellu strategaethau ar gyfer cyflawni cydraddoldeb rhywedd ar draws swyddi academaidd a gweinyddol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar feysydd fel recriwtio, dilyniant gyrfa, a chydbwysedd bywyd-gwaith, gan sicrhau bod dynion a menywod yn cael cyfle cyfartal i lwyddo. |
| **Gweithio Hyblyg ac Absenoldeb Rhiant:** | Mae'r brifysgol yn cynnig polisïau fel gweithio hyblyg, absenoldeb rhiant a rennir, a chymorth gofal plant i sicrhau tegwch rhwng y rhyweddau wrth gydbwyso cyfrifoldebau proffesiynol a phersonol. Mae'r polisïau hyn yn cefnogi menywod i gymryd rhan yn y gweithlu ac yn cyfrannu at gau'r bwlch rhwng y rhyweddau mewn swyddi arwain. |

## 3.6. NDC 6: Dŵr glân a glanweithdra

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn cefnogi NDC 6 trwy raglenni academaidd, mentrau ymchwil, a gweithgareddau gweithredol sy'n anelu at wella rheolaeth dŵr, glanweithdra, a defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr. | |

**Addysg:** Mae ein rhaglenni gradd yn archwilio rheoli dŵr, cynaliadwyedd amgylcheddol, ac iechyd y cyhoedd, gan gyfrannu'n uniongyrchol at addysg sy'n ymwneud â dŵr glân a glanweithdra.

| | |
|---|---|
| **Yr Ysgol Peirianneg:** | Mae’r **MSc Peirianneg Sifil a Dŵr** yn cyfuno peirianneg sifil â ffocws ar faterion yn ymwneud â dŵr, gan gwmpasu cyflenwad dŵr, trin dŵr gwastraff, systemau draenio, a rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy. |
| **Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a’r Amgylchedd:** | Mae amrywiaeth o gyrsiau’n archwilio adnoddau a rheoli dŵr, gan gynnwys yr **MSc Dŵr mewn Byd sy’n Newid** sy’n canolbwyntio ar heriau rheoli dŵr a datblygiad cynaliadwy yn fyd-eang;<br>Mae’r **MSc Peryglon Amgylcheddol a Rheoli Risg** yn archwilio peryglon naturiol a dylunio strategaethau rheoli dŵr cynaliadwy; a’r<br>**BSc Daearyddiaeth Amgylcheddol** sy'n archwilio'r berthynas rhwng gweithgareddau dynol a systemau dŵr, gyda ffocws ar reoli adnoddau dŵr croyw yn gynaliadwy. |
| **Ysgol y Biowyddorau:** | Mae’r **BSc Gwyddorau Cynaliadwyedd Amgylcheddol** yn cynnwys modiwlau ar ecosystemau dŵr, cadwraeth amgylcheddau dyfrol, ac ansawdd dŵr. |

**Ymchwil:** Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o ymchwil arloesol i adnoddau dŵr, glanweithdra, a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae ein Sefydliad Ymchwil Dŵr yn gymuned ryngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â'r her fawr o gynnal dŵr ar gyfer pobl ac ecosystemau.

| | |
|---|---|
| **Y Ganolfan Ymchwil Hydroamgylcheddol (HRC):** | Nod y Ganolfan Ymchwil Hydroamgylcheddol yw datblygu atebion i heriau dŵr byd-eang fel prinder dŵr, llygredd a glanweithdra. |
| **Ymchwil i Berygl Llifogydd a Seilwaith Dŵr:** | Mae ymchwil Prifysgol Caerdydd i reoli perygl llifogydd yn mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan ddigwyddiadau tywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi. Trwy ddylunio seilwaith gwydn a systemau draenio trefol cynaliadwy, gellir sicrhau mynediad dibynadwy at ddŵr glân yn ystod trychinebau amgylcheddol. |
| **Ymchwil Iechyd y Cyhoedd ac Ansawdd Dŵr:** | Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio'r cysylltiad rhwng ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar faterion fel lledaeniad clefydau a gludir gan ddŵr, effaith llygredd ar ddŵr yfed, a strategaethau i wella mynediad at ddŵr glân a glanweithdra mewn gwledydd incwm isel. |
| **Technolegau Trin Dŵr:** | Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn datblygu uwch dechnolegau trin dŵr sy'n sicrhau dŵr glân i gymunedau sy'n wynebu llygredd neu brinder dŵr. Mae'r datblygiadau arloesol hyn yn helpu i fynd i'r afael â heriau dŵr byd-eang. |
| **Systemau Rheoli Dŵr Clyfar:** | Mae'r brifysgol yn rhan o ddatblygu systemau rheoli dŵr clyfar i helpu i sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon a bod dŵr glân yn parhau i fod yn hygyrch i bawb. |

## 3.7 NDC 7: Ynni fforddiadwy a glân

Rydym yn cyfrannu at NDC 7 trwy raglenni academaidd, mentrau ymchwil, a gweithgareddau gweithredol sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, ac atebion ynni cynaliadwy.

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni gradd sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn y sector ynni.

| | |
|---|---|
| **Yr Ysgol Peirianneg** | Rydym yn cynnal nifer o gyrsiau sy'n rhoi'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i fyfyrwyr ym maes heriau ynni byd-eang. O'r **MSc Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd** sy'n canolbwyntio ar y technolegau a'r strategaethau sydd eu hangen i fodloni'r galw byd-eang am ynni fforddiadwy a glân, i'r **MSc Systemau Ynni Trydanol** sy'n hyfforddi myfyrwyr ym maes dylunio, gweithredu a dadansoddi systemau ynni, a'r **BEng/MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig** sy'n darparu sylfaen gref mewn pynciau sy'n ymwneud ag ynni. |
| **Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd** | Mae'r **MSc Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol** yn cynnwys modiwlau ar adnoddau ynni, rheoli adnoddau ynni cynaliadwy ac asesu risg amgylcheddol. |
| **Ysgol Busnes Caerdydd:** | Mae'r **MSc Rheoli Cadwyni Cyflenwi yn Gynaliadwy** yn cynnwys agweddau ar gynaliadwyedd ynni, gan ganolbwyntio ar sut gall busnesau integreiddio ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn eu cadwyni cyflenwi. |

| **Ymchwil:** Rydym yn sefydliad blaenllaw ym maes ymchwil ynni, gyda chanolfannau ymchwil a phrosiectau amrywiol sy'n ymroddedig i hyrwyddo atebion ynni cynaliadwy a glân: | |
|---|---|
| **Y Sefydliad Arloesi Sero Net** | Mae'r Sefydliad hwn yn cynnal ymchwil flaengar i dechnolegau a systemau ynni, gyda ffocws ar y trosglwyddiad i ddyfodol carbon isel, gan chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo atebion ynni glân, fforddiadwy a chynaliadwy. |
| **Ymchwil Ynni Morol:** | Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal ymchwil i ynni morol, gan gynnwys ynni'r llanw ac ynni'r tonnau, fel rhan o'r ymdrechion i fanteisio ar botensial moroedd fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy. Nod yr ymchwil hon yw datblygu technolegau ynni cynaliadwy a glân, a all gyfrannu at gymysgedd amrywiol a gwydn o ynni. |
| **Ymchwil Storio Ynni:** | Mae Caerdydd hefyd ar flaen y gad o ran ymchwil i ddatrysiadau storio ynni, gan gynnwys datblygu uwch dechnolegau batri ac archwilio dulliau newydd o storio ynni adnewyddadwy. |
| **Arloesedd Ynni Gwynt a Solar:** | Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn gweithio ar wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd technolegau ynni gwynt a solar, gan gynnwys optimeiddio dyluniadau tyrbinau gwynt, gwella celloedd solar ffotofoltäig, a dod o hyd i ffyrdd o integreiddio'r ffynonellau ynni hyn yn fwy effeithiol i gridiau cenedlaethol. |
| **Ymchwil Ynni Hydrogen:** | Mae Caerdydd yn ymwneud ag ymchwil i hydrogen fel ffynhonnell ynni glân, gan archwilio sut gellir defnyddio hydrogen fel tanwydd cynaliadwy ar gyfer trafnidiaeth, prosesau diwydiannol, a storio ynni. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ymroddedig i wneud ein campws yn fwy cynaliadwy drwy fabwysiadu arferion ynni-effeithlon ac atebion ynni adnewyddadwy. | |
| **Adeiladau Cynaliadwy ac Effeithlonrwydd Ynni:** | Mae Prifysgol Caerdydd wedi rhoi mentrau arbed ynni ar waith ar draws ei champws, gan gynnwys defnyddio systemau goleuo, gwresogi ac oeri ynni-effeithlon. Mae llawer o adeiladau'r brifysgol wedi'u dylunio gyda chynaliadwyedd mewn golwg, gan gynnwys Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, drwy ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy fel paneli solar i leihau ôl troed carbon y brifysgol. |
| **Prosiectau Ynni Adnewyddadwy:** | Mae Prifysgol Caerdydd yn ymwneud â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y campws, fel gosod paneli solar a phartneriaethau ar gyfer cynhyrchu ynni. Nid yn unig mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at nodau cynaliadwyedd y brifysgol, ond maent hefyd yn dangos enghreifftiau go iawn o gymwysiadau ynni adnewyddadwy i fyfyrwyr ac ymchwilwyr. |
| **Rheoli Carbon a Thargedau Sero Net:** | Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i leihau ei hallyriadau carbon yn unol â thargedau Carbon Sero Net. Mae'r brifysgol yn cymryd camau i leihau ei dibyniaeth ar danwydd ffosil a throsglwyddo i ffynonellau ynni mwy cynaliadwy, gan gyd-fynd ymhellach â amcanion NDC 7 o ynni fforddiadwy a glân. |

## 3.8 NDC 8: Gwaith gweddus a thwf economaidd

Rydym yn cyfrannu at NDC 8 drwy weithgareddau sy’n canolbwyntio ar feithrin twf economaidd cynaliadwy, cyfleoedd cyflogaeth, ac arferion llafur teg.

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â NDC 8, gan ganolbwyntio ar economeg, rheolaeth, perthnasau llafur, a datblygiad cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Ysgol Busnes Caerdydd:** | Mae menter gwerth cyhoeddus yr ysgol yn cyd-fynd â NDC 8 trwy hyrwyddo arferion busnes cyfrifol, cyfiawnder cymdeithasol, a modelau economaidd cynaliadwy sy'n sicrhau twf teg a chyfiawn.<br>Mae ein **BSc Economeg** yn cynnig sgiliau dadansoddol a gwybodaeth am theori economaidd, sut mae economïau'n tyfu, sut caiff cyflogaeth ei chynhyrchu, a sut gall polisïau economaidd wella amodau gwaith.<br>Gall y myfyrwyr archwilio cysyniadau mwy datblygedig yn yr **MSc Economeg**, sy’n canolbwyntio ar ddatblygiad economaidd, economeg llafur, a'r polisïau sy'n hyrwyddo gwaith gweddus a thwf cynaliadwy. Mae’r rhaglen **MSc Economeg, Bancio a Chyllid Rhyngwladol** yn canolbwyntio ar rôl cyllid a masnach fyd-eang wrth feithrin twf economaidd, ac mae’r **MBA Gweinyddu Busnes** yn paratoi arweinwyr busnes y dyfodol i hyrwyddo twf cynaliadwy a chynhwysol mewn sefydliadau. |
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Mae’r **MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus** yn mynd i'r afael â sut gall polisïau cyhoeddus hyrwyddo gwaith gweddus, cydraddoldeb mewn marchnadoedd llafur, a thwf economaidd cynaliadwy. |
| **Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** | Rydym yn cynnig **LLM Cyfraith Masnach Gydwladol** sy'n canolbwyntio ar fusnes byd-eang a chyfraith masnach, gan fynd i'r afael â fframweithiau cyfreithiol sy'n effeithio ar dwf economaidd, cyflogaeth a hawliau llafur. |

**Ymchwil:** Rydym yn cynnal ymchwil helaeth ar bynciau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â NDC 8, gan gynnwys marchnadoedd llafur, cynhyrchiant, datblygiad economaidd, a safonau ym maes cyflogaeth:

| | |
|---|---|
| **Uned Ymchwil i Gyflogaeth** | Mae'r Uned Ymchwil i Gyflogaeth yn canolbwyntio ar ddeall deinameg y gweithle, hawliau llafur, ac arferion sefydliadol sy'n hyrwyddo gwaith gweddus. Mae’r grŵp yn astudio sut gall busnesau a llywodraethau feithrin amgylcheddau gwaith cynhyrchiol, teg a chynhwysol, gan fynd i’r afael â materion fel ansawdd swyddi, cydraddoldeb rhywedd yn y gweithle, a’r economi gig. |
| **Ymchwil Cynhyrchiant ac Arloesi:** | Mae ein hymchwilwyr yn cymryd rhan mewn astudiaethau sy'n ymwneud â gwella cynhyrchiant ac arloesedd mewn diwydiannau, sy'n allweddol i gynnal twf economaidd a chreu swyddi o ansawdd uchel. Mae’r ymchwil yn canolbwyntio ar sut gall cwmnïau hybu cynhyrchiant trwy dechnoleg, arloesedd, a gwell arferion rheoli. |
| **Twf Cynhwysol ac Anghydraddoldeb Economaidd:** | Mae ymchwilwyr hefyd yn archwilio anghydraddoldebau economaidd a sut gall polisïau cynhwysol hybu cyflogaeth a thwf teg. Mae'r ymchwil hon yn cynnwys dadansoddi bylchau cyflog, cyfleoedd cyflogaeth i grwpiau difreintiedig, a pholisïau sy'n sicrhau mynediad teg i waith. |

| | |
|---|---|
| **Ymchwil i'r Farchnad Lafur:** | Mae academyddion Prifysgol Caerdydd yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n edrych ar newidiadau mewn marchnadoedd llafur, yn enwedig yng nghyd-destun awtomeiddio, globaleiddio, a'r economi ddigidol, gan gynnwys astudiaethau ar ddyfodol gwaith a marchnadoedd llafur cynhwysol. |
| **Ymchwil: Parhad** | |
| **Ymchwil ar yr Economi Werdd a Chreu Swyddi:** | Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn astudio'r croestoriad rhwng twf economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan archwilio sut gall ynni adnewyddadwy a diwydiannau gwyrdd greu cyfleoedd gwaith newydd, gan gynnwys ymchwil i bolisïau sy'n cefnogi twf diwydiannau gwyrdd. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau. | |
| **Cyflog Byw** | Prifysgol Caerdydd oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gael ei hachredu fel cyflogwr Cyflog Byw yn 2014. Mae cytuno i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw yn golygu bod pawb sy'n gweithio i Brifysgol Caerdydd, p'un a ydynt yn cael eu cyflogi neu'n gweithio i gontractwyr a chyflenwyr trydydd parti, yn cael y Cyflog Byw a gydnabyddir gan y Sefydliad Cyflog Byw. Rydym yn hyrwyddo diwylliant gweithio, dysgu ac ymchwilio sy'n croesawu gwahaniaethau a'n nod yw sicrhau bod pobl yn gwybod bod aflonyddu a bwlio'n annerbyniol. |

| | |
|---|---|
| **3.9** | **NDC 9: Diwydiant, arloesedd a seilwaith**<br>Rydym yn helpu i hyrwyddo NDC 9 trwy gynnig addysg, ymchwil, a mentrau gweithredol sy'n cefnogi datblygiad diwydiannol cynaliadwy, arloesedd technolegol, a seilwaith gwydn. |
| **Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â NDC 9, gan ganolbwyntio ar beirianneg, technoleg, arloesedd a datblygu seilwaith. | |
| **Yr Ysgol Peirianneg:** | Datblygir sgiliau a dealltwriaeth cynaliadwyedd myfyrwyr trwy'r **BEng/MEng Peirianneg Sifil** sy'n canolbwyntio ar ddylunio a rheoli prosiectau seilwaith sy'n hanfodol ar gyfer twf economaidd a datblygiad cynaliadwy, a'r **BEng/MEng Peirianneg Fecanyddol** sy'n datblygu sgiliau myfyrwyr ym maes peiriannau diwydiannol, systemau ynni, a thechnolegau gweithgynhyrchu. Mae modd i'r myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau ymhellach trwy'r **MSc Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd**, sy'n pwysleisio'r angen am dechnolegau ynni glân, arferion diwydiannol cynaliadwy, a dyluniadau seilwaith cynaliadwy. Mae ein cwrs **MSc Peirianneg Sifil a Dŵr** yn mynd i'r afael â datblygiad seilwaith sy'n gysylltiedig â dŵr, gan ganolbwyntio ar ddulliau arloesol o ymdrin â seilwaith sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd a thrychinebau naturiol. |
| **Ysgol Busnes Caerdydd:** | Rydym yn cynnig **MSc Strategaeth Busnes ac Entrepreneuriaeth** sy'n canolbwyntio ar feithrin arloesedd ac entrepreneuriaeth, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i ysgogi twf diwydiannol a chreu datrysiadau technolegol newydd. Mae gennym hefyd gwrs **MBA Gweinyddu Busnes** sy'n canolbwyntio ar sut gall busnesau feithrin arloesedd a chyfrannu at ddatblygiad diwydiannau cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| **Yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg:** | Trwy'r **BSc/MSc Cyfrifiadureg**, mae myfyrwyr yn dysgu dylunio a datblygu technolegau digidol blaengar a systemau meddalwedd sy'n sail i arloesedd mewn diwydiannau amrywiol, sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu seilwaith modern a meithrin digideiddio diwydiannol. Mae'r **MSc Deallusrwydd Artiffisial** yn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr ddylunio systemau deallus, gan ddeall sut mae deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol yn trawsnewid diwydiannau a seilweithiau. |
| **Ymchwil:** Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn ymchwil sy'n mynd i'r afael â datblygu seilwaith cynaliadwy, arloesedd diwydiannol, a hyrwyddo diwydiannu cynhwysol. | |
| **Sefydliad Catalysis Caerdydd (CCI):** | Mae Sefydliad Catalysis Caerdydd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol am ei ymchwil i brosesau cemegol sy'n allweddol i arferion diwydiannol cynaliadwy. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu catalyddion a all leihau effaith amgylcheddol prosesau diwydiannol, gwella effeithlonrwydd ynni, a chyfrannu at dechnolegau gweithgynhyrchu glanach. |
| **Sefydliad Gweithgynhyrchu, Logisteg a Stocrestrau PARC:** | Mae PARC yn cefnogi busnesau ac entrepreneuriaid i ddatblygu technolegau blaengar ac atebion diwydiannol. Mae'r sefydliad yn ganolbwynt ar gyfer cydweithredu rhwng y byd academaidd, diwydiant a'r llywodraeth, gan feithrin arloesedd ym maes datblygu seilwaith, gweithgynhyrchu a thechnoleg. |
| **Ymchwil ym maes Cerbydau Awtonomaidd a Dinasoedd Clyfar:** | Rydym yn cymryd rhan mewn ymchwil i dechnolegau cerbydau awtonomaidd a dinasoedd clyfar. Mae arloesiadau o'r fath yn hanfodol i seilwaith trefol a systemau trafnidiaeth y dyfodol sy'n effeithlon, yn wydn ac yn gynaliadwy. |
| **Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch** | Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar arloesiadau ym maes gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys roboteg, awtomeiddio, a gweithgynhyrchu adiol (argraffu 3D). Mae'r technolegau hyn yn chwyldroi diwydiannau trwy wella effeithlonrwydd, lleihau gwastraff, a galluogi dulliau cynhyrchu cynaliadwy. |
| **Arloesi mewn Adeiladu:** | Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn gweithio ar ddulliau adeiladu arloesol sy'n cyfrannu at seilwaith mwy cynaliadwy a chadarn, gan gynnwys defnyddio deunyddiau cymhleth, adeiladwaith modiwlaidd, a modelu gwybodaeth am adeiladau (BIM) i wella gwytnwch a chynaliadwyedd prosiectau seilwaith. |
| **Ymchwil Cludiant a Symudedd:** | Rydym yn cynnal ymchwil i wella seilwaith trafnidiaeth, gan ganolbwyntio ar wneud systemau trafnidiaeth yn fwy cynaliadwy, effeithlon a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys prosiectau ar gerbydau trydan a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym wedi ymrwymo i adeiladu seilwaith cynaliadwy ar ein campws ein hunain, fel model ar gyfer datblygu seilwaith cadarn ac arloesol. | |
| **Mentrau Campws Gwyrdd:** | Rydym wedi rhoi mentrau gwyrdd ar waith ar draws y campws, gan gynnwys dylunio adeiladau cynaliadwy, seilwaith ynni-effeithlon, a gosodiadau ynni adnewyddadwy. Mae'r ymdrechion hyn yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon y brifysgol gan ddangos enghreifftiau ymarferol o seilwaith cynaliadwy i fyfyrwyr ac ymchwilwyr. |
| **Prosiectau Adeiladau Cynaliadwy:** | Mae llawer o adeiladau newydd Prifysgol Caerdydd wedi'u dylunio i fodloni safonau amgylcheddol lefel uchel, gan ymgorffori technolegau arbed ynni, deunyddiau cynaliadwy, a dyluniadau pensaernïol arloesol sy'n lleihau eu heffaith amgylcheddol. Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at nod y brifysgol o leihau allyriadau carbon ac adeiladu seilwaith gwydn. |

## 3.10 NDC 10: Llai o anghydraddoldebau

Mae darpariaeth y brifysgol yn pwysleisio cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, a chynhwysiant, gan baratoi myfyrwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth i hyrwyddo tegwch mewn cymdeithas, yn lleol ac yn fyd-eang.

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy’n canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb economaidd, a lleihau gwahaniaethau ym maes iechyd, addysg a chyflogaeth.

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Mae’r **BSc Gwyddorau Cymdeithasol** yn cynnig cyfle i fyfyrwyr archwilio a mynd i’r afael â materion anghydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, eu hachosion a’u canlyniadau, a pholisïau sy’n mynd i’r afael ag anghyfartaledd mewn cymdeithas. Maent yn datblygu eu sgiliau ymhellach trwy’r **MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus** gan ganolbwyntio ar sut gall llywodraethau, sefydliadau rhyngwladol, a chymdeithas sifil fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol trwy bolisi cyhoeddus. Mae gennym **MSc Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** arbenigol newydd sy'n archwilio strategaethau ar gyfer lleihau anghydraddoldebau sy'n ymwneud â rhywedd, hil, anabledd, a ffactorau eraill, yn ogystal â'r polisïau a’r fframweithiau cyfreithiol perthnasol. |
| **Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** | Mae **LLM Cyfraith Hawliau Dynol** yn cynnig dealltwriaeth ddofn o gyfraith hawliau dynol ryngwladol, gyda ffocws ar sut gellir defnyddio systemau cyfreithiol i frwydro yn erbyn anghydraddoldebau ac amddiffyn poblogaethau bregus, ac mae’r **MSc Llywodraethu Byd-eang** yn archwilio rôl sefydliadau rhyngwladol wrth leihau anghydraddoldebau byd-eang.<br>Mae’r **BSc Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth** yn archwilio deinameg pŵer, anghydraddoldebau, a chyfiawnder cymdeithasol mewn systemau gwleidyddol. |
| **Ysgol Busnes Caerdydd:** | Mae’r **MSc Economeg** yn archwilio anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol a’r polisïau a all fynd i’r afael â nhw, ac mae’r **MSc Rheoli Adnoddau Dynol** yn canolbwyntio ar greu gweithleoedd teg a chynhwysol, dysgu am reoli amrywiaeth, cyflog cyfartal, arferion gwrth-wahaniaethu, a strategaethau i leihau anghydraddoldebau yn y gweithle. |

**Ymchwil:** Cynnal ymchwil helaeth i geisio deall a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau, yn y DU ac yn fyd-eang, gan gynnwys ym maes addysg, gofal iechyd, cyflogaeth a thai.

| | |
|---|---|
| **Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru:** | Mae ymchwil WISERD yn y maes hwn yn ymdrin ag addysg, marchnadoedd llafur, anghydraddoldebau iechyd, ac effaith polisïau cyhoeddus ar leihau anghydraddoldebau; mae WISERD yn gweithio gyda llunwyr polisïau i gynllunio ymyriadau a all leihau anghydraddoldebau’n effeithiol yng Nghymru a thu hwnt. |
| **Ymchwil Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol:** | Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio achosion sylfaenol tlodi, fel diweithdra, diffyg diogeledd tai, a diffyg mynediad at addysg, ac yn cynnig atebion i leihau allgáu cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| **Mudo a'r Gyfraith:** | Mae ymchwilwyr yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd yn astudio'r heriau cyfreithiol a chymdeithasol y mae ymfudwyr a ffoaduriaid yn eu hwynebu, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, addysg, a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r ymchwil hon yn llywio argymhellion polisi sydd â'r nod o wella cynhwysiant a lles ymfudwyr yn eu gwledydd lletyol. |
| **Ymchwil i Anghydraddoldebau Iechyd:** | Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn canolbwyntio ar ddeall anghydraddoldebau iechyd; mae astudiaethau yn yr Ysgol Meddygaeth ac yn Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd yn archwilio sut gellir gwella systemau gofal iechyd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol. |
| **Ymchwil i Anghydraddoldebau Iechyd:** | Bu ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu fframwaith NIHR INCLUDE, er mwyn i bobl â gallu diffygiol gydsynio i gymryd rhan mewn ymchwil. Cafodd ei lansio’n ffurfiol ym mis Tachwedd 2022 (https://www.capacityconsentresearch.com/include-impaired-capacity-to -consent-framework.html). Mae hyn yn cefnogi ymchwilwyr i allu cynnwys pobl nad ydynt yn aml yn gallu cymryd rhan mewn ymchwil oherwydd eu nam. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ymroddedig i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI); rydym yn defnyddio polisïau ac arferion sydd wedi’u dylunio i hyrwyddo tegwch a lleihau anghydraddoldebau yng nghymuned y brifysgol a thu hwnt. | 10 REDUCED INEQUALITIES |
| **Siarter Athena SWAN:** | Rydym yn aelod o Siarter Athena SWAN, sy’n hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd ym maes addysg uwch ac ymchwil, ac rydym wedi derbyn nifer o ddyfarniadau Athena SWAN i gydnabod ein hymdrechion i wella cydraddoldeb rhywedd yn y byd academaidd, yn enwedig ym meysydd STEM. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym Mhrifysgol Caerdydd** | Mae **Pwyllgor** Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Prifysgol Caerdydd yn gweithio i sicrhau bod y brifysgol yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol i fyfyrwyr a staff; gan gynnwys mentrau i leihau anghydraddoldebau rhywedd, hil ac anabledd o ran derbyn myfyrwyr, cyflogi, a dyrchafu, yn ogystal â chynnal gweithdai ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod a gwahaniaethu. |
| **Rhaglenni Ehangu Cyfranogiad:** | Rydym yn cynnal nifer o fentrau ehangu cyfranogiad sydd wedi’u cynllunio i gynyddu mynediad i addysg uwch i fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig; gan gynnwys darparu ysgoloriaethau, mentoriaeth, a gweithgareddau allgymorth i annog myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd i addysg prifysgol. Rydym hefyd yn defnyddio arfer teg derbyn myfyrwyr i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad i addysg uwch. |
| **Cynlluniau Cymorth i Ffoaduriaid:** | Rydym yn cynnig cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy raglenni pwrpasol sy'n darparu mynediad i addysg, hyfforddiant iaith Saesneg, a datblygiad proffesiynol. Nod y mentrau hyn yw lleihau'r anghydraddoldebau mae ffoaduriaid yn eu hwynebu a’u helpu i integreiddio i gymdeithas. |

| | | |
|---|---|---|
| **3.11** | **NDC 11: Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy**<br>Ym Mhrifysgol Caerdydd ein nod yw paratoi ein myfyrwyr i fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â threfoli, newid hinsawdd, a datblygu cynaliadwy. | 11 SUSTAINABLE CITIES AND COMMUNITIES |

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gynllunio trefol, pensaernïaeth gynaliadwy, cynaliadwyedd amgylcheddol a datblygiad cymunedol, gan alluogi'r gwaith o ddylunio, cynllunio a rheoli dinasoedd a chymunedau cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Ysgol Pensaernïaeth Cymru:** | Mae ein **BSc/MArch Pensaernïaeth** yn canolbwyntio ar ddylunio cynaliadwy, effaith amgylcheddol, ac agweddau cymdeithasol adeiladu cymunedau, gan archwilio sut i ddylunio ar gyfer effeithlonrwydd ynni, i leihau effaith amgylcheddol, ac i wella ansawdd bywyd. Mae'r **MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy** yn ceisio cydbwyso gwerth diwylliannol treftadaeth â'r angen am fesurau cynaliadwyedd modern. |
| **Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio** | Mae ystod o raglenni yn rhoi sgiliau cynaliadwyedd i fyfyrwyr ym maes datblygiad trefol a rhanbarthol. Maent yn cynnwys **BSc Datblygu Trefol a Rhanbarthol** sy'n canolbwyntio ar gynllunio dinasoedd cynaliadwy, gwydn; yr **MSc Cynllunio Cynaliadwyedd a Pholisi Amgylcheddol** a'r **MSc Cynllunio a Datblygu Gofodol** sy'n canolbwyntio ar gynllunio trefol a rhanbarthol, mewn ffordd amgylcheddol a chymdeithasol gyfrifol; a'r **MSc Cludiant a Chynllunio** sy'n pwysleisio systemau trafnidiaeth cynaliadwy. |
| **Yr Ysgol Peirianneg:** | Mae'r **MSc Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol** yn canolbwyntio ar ddylunio seilwaith i gefnogi cymunedau cynaliadwy. |

**Ymchwil:** Cyflawni ymchwil helaeth gyda'r nod o ddatblygu dinasoedd cynaliadwy a gwella ansawdd bywyd trefol yn ogystal â seilwaith gwyrdd, adfywio trefol, gwytnwch hinsawdd, a thai cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Ymchwil i Wytnwch Trefol:** | Mae ymchwilwyr yn yr ysgolion Pensaernïaeth, Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd, Peirianneg a Daearyddiaeth a Chynllunio yn archwilio ffyrdd o wneud dinasoedd yn fwy gwydn yn wyneb newid hinsawdd a thrychinebau naturiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaethau ar gyfer rheoli llifogydd, systemau ynni cynaliadwy, a pharodrwydd ar gyfer trychinebau, gan lywio'r gwaith o lunio polisïau a chynllunio. |
| **Ymchwil Tai Cynaliadwy:** | Rydym yn ymwneud ag ymchwil sy'n ceisio gwneud tai yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy, gan gynnwys technolegau adeiladu ynni-effeithlon, deunyddiau cynaliadwy, a dyluniadau tai arloesol sy'n lleihau'r ôl troed carbon ac yn gwella ansawdd bywyd. |
| **Ymchwil Symudedd Trefol a Chludiant:** | Mae ymchwilwyr yn yr ysgolion Pensaernïaeth, Daearyddiaeth a Chynllunio a Pheirianneg yn cynnal ymchwil i symudedd trefol cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar wella trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau tagfeydd traffig, ac annog cerdded a beicio, gan lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau. |

**Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ymroddedig i leihau ein heffaith amgylcheddol a chreu campws mwy cynaliadwy, er mwyn cynnig model ar gyfer trefolaeth gynaliadwy:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Argyfwng Hinsawdd Cyngor Dinas Caerdydd** | Mae Prifysgol Caerdydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig **Cyngor Caerdydd**, ar brosiectau sy'n ceisio gwella cynaliadwyedd gan gynnwys mannau gwyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, a hyrwyddo cydweithio. |
| **Trafnidiaeth Gynaliadwy ar y Campws:** | Mae Prifysgol Caerdydd yn annog opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i fyfyrwyr a staff, gan gynnwys beicio, cerdded, a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r brifysgol wedi rhoi cynlluniau rhannu beiciau ar waith, wedi gwella'r seilwaith beicio, ac wedi rhoi cymhellion teithio llesol i staff a myfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun teithio'r Brifysgol (2022 – 2027)** | Mae ein Cynllun Teithio pum mlynedd (2022-2027) yn amlygu’r meysydd allweddol y gallwn gydweithio arnynt er mwyn mynd i’r afael â’r effaith mae teithio i’r brifysgol yn ei chael ar yr amgylchedd, yr ardal leol ac iechyd a lles ein staff a’n myfyrwyr, gan osod teithio llesol (cerdded, beicio, olwyno) ar frig hierarchaeth deithio y cytunwyd arni. Mae'n cyd-fynd â pholisi lleol a chenedlaethol ac arfer gorau, ac yn cynnwys dull â ffocws bob blwyddyn ar elfennau allweddol o’n gweithrediadau trafnidiaeth. Ochr yn ochr â’r adolygiad â ffocws, mae yna gynllun gweithredu o fesurau a fydd yn annog ac yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy. Eleni, yn rhan o’r cynllun, byddwn yn rhoi ystyriaeth i adolygiad o deithiau busnes. |
| **Ap Newid Camau Caerdydd:** | Mae Newid Camau wedi'i gynllunio i helpu staff a myfyrwyr i fynd o le i le yn fwy cynaliadwy, gan wobrwyo teithio cynaliadwy wrth gymudo a theithiau hamdden i'r campws ac oddi yno, ac mae'n annog cerdded, rhedeg, olwyno a beicio yn rheolaidd er budd iechyd a lles. Cofnodwyd 178,000 o deithiau llesol a chynaliadwy ar ap Newid Camau Caerdydd rhwng 26 Medi 2022 ac 16 Mehefin 2023, gyda’r cyfartaledd yn 163 o deithiau fesul cyfranogwr. Mae hyn yn gynnydd o’r 99,428 a adroddwyd yn y cyfnod 12 mis blaenorol (27 Medi 2021-Mehefin 2022). |
| **Mentrau Adeiladu Gwyrdd:** | Mae llawer o adeiladau modern Prifysgol Caerdydd a’r rhai sydd wedi’u hadnewyddu wedi’u dylunio i fod yn ecogyfeillgar, gan ymgorffori systemau ynni-effeithlon, deunyddiau cynaliadwy, a thoeau gwyrdd. Mae cynlluniau datblygu campws y brifysgol yn canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon, gwella effeithlonrwydd ynni, a chynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy. |

## 3.12 NDC 12: Defnyddio a Chynhyrchu’n Gyfrifol

Rydym yn cefnogi **NDC 12** trwy raglenni, ymchwil a mentrau cynaliadwyedd sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau cynaliadwy, defnydd moesegol, lleihau gwastraff, ac egwyddorion economi gylchol.

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy'n mynd i'r afael â chynhyrchu cynaliadwy, defnydd cyfrifol, a rheolaeth amgylcheddol.

| | |
|---|---|
| **Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio:** | Mae’r cwrs **BSc Daearyddiaeth Amgylcheddol** yn canolbwyntio ar ddeall y berthynas rhwng gweithgarwch dynol a’r amgylchedd, gan gynnwys effeithiau echdynnu adnoddau, cynhyrchu gwastraff, a phatrymau defnydd ar ecosystemau.<br>Mae’r **MSc Cynaliadwyedd, Cynllunio a Pholisi Amgylcheddol** yn archwilio sut gall gwaith llunio polisïau hybu defnydd cyfrifol ac arferion cynhyrchu cynaliadwy a chadwyni cyflenwi cynaliadwy. Mae’r **MSc Cynllunio Amgylcheddol** yn canolbwyntio ar sut gall cynllunio trefol a gwledig gyfrannu at ddefnydd cyfrifol o adnoddau, gan gynnwys defnydd tir cynaliadwy, rheoli dŵr, a lleihau gwastraff. |
| **Ysgol Busnes Caerdydd:** | Mae myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth werthfawr o arferion busnes cynaliadwy trwy’r **MSc Rheoli Ryngwladol** sy'n cynnig cyfleoedd i archwilio sut gall cwmnïau byd-eang fabwysiadu dulliau cynhyrchu cyfrifol; a’r **MSc Strategaeth Busnes ac Entrepreneuriaeth** sy'n canolbwyntio ar entrepreneuriaeth gynaliadwy, lle mae myfyrwyr yn dysgu sut i greu busnesau sy'n blaenoriaethu defnydd cyfrifol, arloesedd gwyrdd, a'r economi gylchol. |

<table>
<tr><td>Yr Ysgol Peirianneg:</td><td>Mae’r MSc Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd yn canolbwyntio ar yr atebion peirianyddol a thechnolegol sydd eu hangen i hyrwyddo'r defnydd o ynni cynaliadwy a lleihau'r defnydd o adnoddau a lleihau gwastraff. Mae’r MSc Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol yn integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd i arferion peirianneg sifil, gyda ffocws ar ddatblygu seilwaith cynaliadwy, defnydd effeithlon o ddeunyddiau, a rheoli gwastraff.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymchwil: Mae ein mentrau ymchwil yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu gwybodaeth ym maes defnydd cyfrifol a chynhyrchu cynaliadwy, gan archwilio ffyrdd arloesol o leihau gwastraff, rheoli adnoddau'n effeithlon, a chreu patrymau defnydd cynaliadwy.</td></tr>
<tr><td>Ymchwil i’r Economi Gylchol:</td><td>Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn ymwneud â phrosiectau sy'n archwilio'r trosglwyddiad i economi gylchol, lle mae gwastraff yn cael ei leihau, ac adnoddau'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar ddylunio cynhyrchion a systemau sy'n lleihau'r angen am ddeunyddiau crai, yn ymestyn cylchoedd bywyd cynnyrch, ac yn hyrwyddo defnydd cyfrifol.</td></tr>
<tr><td>Ymchwil i Systemau Bwyd a Chynaliadwyedd:</td><td>Rydym yn astudio ffyrdd o wneud arferion cynhyrchu a bwyta bwyd yn fwy cynaliadwy, gan archwilio systemau bwyd lleol, lleihau gwastraff bwyd, a hyrwyddo arferion amaethyddol cynaliadwy. Mae'r ymchwil hefyd yn archwilio ymddygiad defnyddwyr a sut gall polisïau annog dewisiadau mwy cyfrifol o ran defnydd: lleihau'r cig sy’n cael ei fwyta a chefnogi cynhyrchu bwyd organig, lleol.</td></tr>
</table>

**Gweithrediadau Campws**: Rydym yn ymroddedig i leihau ein heffaith amgylcheddol a hyrwyddo defnydd a chynhyrchiant cyfrifol yn y brifysgol ei hun. Yn ystod 2022-23, canolbwyntiwyd ar ddatblygu tîm i yrru gwaith Lleihau Gwastraff y Brifysgol.

**Mentrau Dim Gwastraff ac Ailgylchu:** Mae Prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno rhaglenni lleihau gwastraff ac ailgylchu ar draws ei champws. Nod y mentrau hyn yw lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi trwy hybu ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio deunyddiau. Mae'r brifysgol hefyd yn annog myfyrwyr a staff i fabwysiadu arferion dim gwastraff, gan gynnwys osgoi plastigau untro a lleihau defnydd. Ymunodd ein Rheolwr Lleihau Gwastraff â'r Brifysgol yn gynnar ym mis Gorffennaf 2023 a'i ffocws cychwynnol oedd cynnal Archwiliadau Gwastraff ac Ailgylchu i ddeall y gwaelodlin, ac i wella ein gwaith casglu data ac adrodd.


**Gwastraff Academaidd a Phreswyl 2022/2023 (gan gynnwys gwastraff peryglus)**


| | Tunnell | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwastraff | 1568.45 | - |
| Ailgylchwyd* | 1438.7 | 92 |
| (Ailddefnyddio) | 8.8 | 1 |
| Tirlenwi | 36.4 | 2.3 |

*Mae gwastraff wedi'i ailgylchu hefyd yn cynnwys ailddefnyddio, a'r holl wastraff domestig sy'n cael ei drin trwy ynni o wastraff yn Viridor. Olrhain gwastraff fesul mis 2022/2023

Mae ein cynllun gwastraff ac ailgylchu cyffredinol wedi parhau i weithredu'n dda, ac mae mentrau newydd yn cael eu datblygu, er enghraifft cyflwyno cynllun ailddefnyddio dodrefn ar draws y Brifysgol.




**Arferion Caffael Cynaliadwy:** Rydym wedi sefydlu polisïau caffael cynaliadwy sy'n rhoi blaenoriaeth i brynu cynhyrchion ecogyfeillgar, o ffynonellau moesegol ac effeithlon o ran adnoddau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy ar gyfer prosiectau adeiladu, nwyddau swyddfa, a gwasanaethau bwyd ar y campws.

**Effeithlonrwydd Ynni ac Adnoddau mewn Adeiladau:** Mae ein hymrwymiad i leihau'r defnydd o adnoddau yn ymestyn i adeiladau ein campws, lle mae mesurau effeithlonrwydd ynni a dŵr wedi'u rhoi ar waith. Mae'r brifysgol wedi ôl-osod sawl adeilad i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd o adnoddau ac mae'n annog ymddygiad cynaliadwy ymhlith staff a myfyrwyr.

## 3.13 NDC 13: Gweithredu ar Newid Hinsawdd

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd, i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol, ac i gefnogi ymdrechion byd-eang i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

**Addysg:** Mae nifer o'n rhaglenni academaidd yn canolbwyntio ar weithredu ar newid hinsawdd, cynaliadwyedd amgylcheddol, a pholisi sy'n ymwneud â hinsawdd, gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fyfyrwyr.

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd:** | Mae'r **BSc Daearyddiaeth Amgylcheddol** yn archwilio'r berthynas rhwng gweithgarwch dynol a'r amgylchedd, gyda ffocws cryf ar newid hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae'r **MSc Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol** yn canolbwyntio ar gymwysiadau ymarferol y wyddoniaeth, gan gynnwys dal a storio carbon (CCS), rheoli adnoddau dŵr, a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol; ac mae'r **MSc Daearyddiaeth Forol** yn ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd ar amgylcheddau morol, gan gynnwys moroedd yn codi, asideiddio, a newidiadau i fioamrywiaeth. |
| **Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio:** | Mae'r **MSc Cynaliadwyedd, Cynllunio a Pholisi Amgylcheddol** yn canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, lliniaru ac addasu i newid hinsawdd, a pholisi amgylcheddol, gan archwilio gwytnwch trefol a chynllunio cynaliadwy. |
| **Yr Ysgol Peirianneg:** | Mae'r **MSc Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd** yn archwilio sut gellir gwneud systemau ynni yn fwy cynaliadwy i liniaru newid hinsawdd; ac mae'r **MSc Peirianneg Sifil ac Amgylcheddol** yn integreiddio gweithredu ar newid hinsawdd gyda pheirianneg sifil, gan ganolbwyntio ar ddylunio seilwaith sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ac arferion adeiladu cynaliadwy. |

**Ymchwil:** Rydym yn cynnal ymchwil helaeth gyda'r nod o fynd i'r afael â newid hinsawdd a datblygu atebion arloesol ar gyfer lliniaru, addasu a gwytnwch i'r hinsawdd.

| | |
|---|---|
| **Ymchwil Canolfan Tyndall i Newid Hinsawdd:** | Rhwydwaith blaenllaw o brifysgolion y DU ym Mhrifysgol Caerdydd yw Canolfan Tyndall, sy'n canolbwyntio ar ymchwil ryngddisgyblaethol ym maes hinsawdd, ac yn cwmpasu gwyddoniaeth, polisi, ac atebion hinsawdd. Mae ei brosiectau'n mynd i'r afael â phynciau sy'n cynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwytnwch i'r hinsawdd a strategaethau addasu, datblygu polisi hinsawdd a thrawsnewid i garbon isel. |
| **Y Sefydliad Arloesi Sero Net** | Mae ymchwil y sefydliad yn seiliedig ar dri pheth allweddol – deall yr **adnoddau** sydd ar gael i ni i sicrhau allyriadau sero net; gofyn a oes modd **lliniaru** effeithiau ar yr hinsawdd drwy ddefnyddio gwyddoniaeth a pheirianneg; a chefnogi'r cyfnod **pontio** hirdymor i economi wyrddach. |
| **Ymchwil Forol ac Arfordirol:** | Rydym yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd ar ecosystemau morol ac arfordirol, gan ganolbwyntio ar foroedd yn codi, cynhesu, ac asideiddio, a sut gall cymunedau arfordirol addasu. |

| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ymroddedig i leihau ein hôl troed carbon a hyrwyddo arferion cynaliadwy ar draws ein campws, gan gysoni ein gweithrediadau â'r nodau i gyflawni allyriadau carbon sero net. Mae'r Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor yn gyfrifol am weithredu'r targedau hyn. | |
|---|---|
| **Targedau Lleihau Carbon** | Mae Prifysgol Caerdydd wedi gosod targedau uchelgeisiol i leihau ei hallyriadau carbon, yn unol â nodau hinsawdd byd-eang. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni carbon sero net ar gyfer cwmpas 1 (allyriadau uniongyrchol) a 2 (allyriadau anuniongyrchol) erbyn 2030, a chyn 2050 ar gyfer cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol). Mae'r brifysgol yn gweithio i gyflawni allyriadau carbon sero net trwy gyfuniad o fesurau effeithlonrwydd ynni, mabwysiadu ynni adnewyddadwy, ac arferion adeiladu cynaliadwy. Dechreuodd y Rheolwr Rhaglen Sero Net weithio ym mis Mehefin 2023 i ddatblygu ein Map Trywydd i Sero Net ar gyfer Cwmpas 1 a 2 yn ystod y blynyddoedd i ddod. Bydd ein map trywydd yn helpu i nodi'r prosiectau a'r gweithgareddau y mae angen eu cyflawni i weithio tuag at sero net. |
| **Adrodd am garbon** | Eleni, bu i ni gyflwyno ein hôl troed carbon ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf, yn rhan o ofynion Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus. Gan ddefnyddio safonau adrodd Llywodraeth Cymru, roedd ein hallyriadau blynyddol yn 77,235 tCO2e. Mae'r safonau adrodd ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2 yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd gennym o'r blaen, ac yn dangos bod ein hallyriadau yn 14,863 tCO2e (Cwmpas 1) a 10,034 tCO2e (Cwmpas 2). Nid yw'r safonau ar gyfer Cwmpas 3 yn cyd-fynd yn dda â chategoreiddio caffael Addysg Uwch, felly mae'r allyriadau o 58,338 tCO2e (Cwmpas 3) a adroddwyd gennym yn llai dibynadwy. Byddwn yn parhau i adrodd i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol a byddwn yn defnyddio ôl troed 2021-22 fel ein "llinell sylfaen" ar gyfer Cwmpas 1 a 2 wrth symud ymlaen; fel y nodwyd, rydym hefyd yn archwilio safonau adrodd amgen a fyddai'n sicrhau ein bod yn gyson â'r sector Addysg Uwch (Fframwaith Allyriadau Carbon Safonol (SCEF) EAUC). |
| **Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni:** | Rydym wedi rhoi technolegau a seilwaith ynni-effeithlon ar waith ar draws ein campws. Defnyddir paneli solar, goleuadau ynni-effeithlon, a systemau clyfar adeiladau i leihau'r defnydd o ynni, tra bod buddsoddiadau mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy yn helpu i ddatgarboneiddio cyflenwad ynni'r brifysgol.. |
| **Mentrau Teithio Cynaliadwy:** | Nod mentrau teithio'r brifysgol yw lleihau allyriadau carbon sy'n deillio o gymudo a hyrwyddo dewisiadau trafnidiaeth effaith isel. |

## 3.14 NDC 14: Bywyd dan ddŵr

Rydym yn gweithio i gefnogi NDC 14 trwy amrywiaeth o raglenni academaidd, mentrau ymchwil, a gweithgareddau gweithredol sy'n cyfrannu at amddiffyn ecosystemau morol, rheoli adnoddau morol yn gynaliadwy, a lliniaru effeithiau dynol ar fywyd cefnforol.

**Addysg:** Rydym yn cynnig rhaglenni sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fyfyrwyr ddeall a diogelu ecosystemau morol, i fynd i'r afael â llygredd, ac i ddatblygu atebion cynaliadwy ar gyfer rheoli adnoddau morol:

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd:** | Mae'r **BSc** a'r **MSci Daearyddiaeth Forol** yn canolbwyntio ar ddeall y prosesau ffisegol, cemegol a biolegol sy'n ffurfio cefnforoedd ac amgylcheddau arfordirol y byd, ynghyd ag effeithiau dynol. Mae'r **MSc Daeareg Amgylcheddol Gymhwysol** yn ymdrin â heriau amgylcheddol sy'n ymwneud â thir a môr, ac mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau morol, echdynnu adnoddau morol, llygredd morol, ac erydu arfordirol, sydd oll yn ymwneud â chadwraeth bywyd o dan ddŵr. |
| **Ysgol y Biowyddorau:** | Mae **BSc y Gwyddorau Biolegol gydag Ecoleg Morol** yn canolbwyntio ar fioleg y môr, bioamrywiaeth forol, ecosystemau cefnforol, ac effeithiau newidiadau a achosir gan bobl, fel newid hinsawdd a llygredd, ar fywyd morol; ac mae'r **MSc Ecoleg a Chadwraeth Fyd-eang** yn canolbwyntio ar amddiffyn a rheoli amgylcheddau naturiol, gan archwilio cadwraeth fioamrywiaeth, rheoli ecosystemau, a datblygu polisi gyda'r nod o ddiogelu bywyd morol a chefnforol rhag effeithiau gweithgarwch dynol. |

**Ymchwil:** Rydym yn gartref i nifer o sefydliadau a chanolfannau ymchwil sy'n ymroddedig i astudio amgylcheddau morol, bioamrywiaeth forol, lleihau llygredd, a datblygu arferion rheoli morol cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| **Ymchwil Morol ac Arfordirol** | Mae ymchwilwyr ym maes y Ddaear a'r Biowyddorau yn cynnal ymchwil rhyngddisgyblaethol ar y prosesau ffisegol, biolegol a chemegol sy'n effeithio ar ecosystemau morol ac arfordirol, gan gynnwys bioamrywiaeth forol; deinameg arfordirol a newid hinsawdd, gan ymchwilio i effaith lefelau'r môr yn codi, cefnforoedd yn cynhesu, ac asideiddio ar ecosystemau morol; a llygredd. |
| **Y Sefydliad Ymchwil Dŵr** | Cymuned ryngddisgyblaethol yw'r Sefydliad Ymchwil Dŵr sy'n mynd i'r afael â'r her fawr o gynnal dŵr ar gyfer pobl ac ecosystemau mewn byd sy'n newid, gyda meysydd ymchwil thematig yn cwmpasu diogeledd dŵr, datrysiadau dŵr, systemau dalgylchoedd dŵr, llygredd, a dŵr ar gyfer iechyd a lles. |
| **Ymchwil Ecosystem Morwellt:** | Rydym yn cynnal ymchwil sy'n canolbwyntio ar ecosystemau morwellt, sy'n hanfodol ar gyfer dal a storio carbon, darparu cynefin i rywogaethau morol, a diogelu arfordiroedd. Mae dolydd morwellt dan fygythiad ac mae ein hymchwil yn gweithio i ddeall sut gellir adfer a rheoli'r ecosystemau hyn mewn modd cynaliadwy, er mwyn cefnogi bioamrywiaeth ac ecosystemau morol. |

| | |
|---|---|
| **Ymchwil Llygredd Plastig:** | Mae llygredd plastig yn fygythiad sylweddol i fywyd dan ddŵr, ac mae ein hymchwilwyr yn ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae astudiaethau'n cael eu cynnal ar effeithiau microblastigau ar organebau ac ecosystemau morol, yn ogystal ag ymdrechion i leihau gwastraff plastig gydag arferion gwell o ran rheoli gwastraff, ailgylchu, a datblygu deunyddiau bioddiraddadwy. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn ceisio hyrwyddo cynaliadwyedd ar ein campws, trwy nifer o fentrau sy'n anelu i leihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau, gan gynnwys: | |
| **Mentrau Lleihau Plastig:** | Rydym wedi rhoi ystod o fentrau lleihau plastig ar waith i leihau plastigion untro ar y campws, gan gynnwys annog myfyrwyr a staff i leihau eu defnydd o blastig, i ailddefnyddio deunyddiau, ac i ailgylchu gwastraff yn ogystal a gweithredu menter LEAF ar draws ein labordai. |
| **Dewisiadau Bwyd a Bwyd Môr Cynaliadwy:** | Mae ein gwasanaethau arlwyo yn hyrwyddo'r defnydd o fwyd môr cynaliadwy, gan sicrhau bod pysgod a bwyd môr a weinir ar y campws yn tarddu o bysgodfeydd cynaliadwy, gan gefnogi ymdrechion byd-eang i leihau gorbysgota a hyrwyddo defnydd cyfrifol o adnoddau morol. |

| | |
|---|---|
| **3.15** | **NDC 15: Bywyd ar y Tir**<br>Rydym yn cefnogi **NDC 15** trwy ystod eang o feysydd sy'n ymwneud â chadwraeth a rheolaeth gynaliadwy ar ecosystemau daearol a diogelu bioamrywiaeth. |
| **Addysg:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o raglenni sy'n canolbwyntio ar wyddor amgylcheddol, bioleg cadwraeth, a rheoli ecosystemau tir yn gynaliadwy. | |
| **Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd:** | Mae'r **BSc Daearyddiaeth Amgylcheddol** yn archwilio gweithgarwch dynol ac ecosystemau daearol, gyda ffocws ar ddefnydd cynaliadwy o dir, cadwraeth adnoddau naturiol, a pholisi amgylcheddol; ac mae'r **BSc Gwyddor Cynaliadwyedd Amgylcheddol** yn mynd i'r afael â heriau cydbwyso datblygiad dynol â chadwraeth ecosystemau. |
| **Ysgol y Biowyddorau:** | Mae'r **BSc yn y Gwyddorau Biolegol gydag Ecoleg** yn canolbwyntio ar agweddau ecolegol bywyd ar dir, gan astudio rhyngweithiadau rhwng organebau a'u hamgylcheddau, gan bwysleisio gwaith maes ac ymchwil i ddatblygu sgiliau ymarferol. Gall myfyrwyr ddatblygu eu hastudiaethau gyda'r **MSc Ecoleg a Chadwraeth Fyd-eang** sy'n mynd i'r afael â heriau ecolegol byd-eang; a'r **MSc Arferion Cadwraeth** sy'n galluogi myfyrwyr i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chynefinoedd yn diraddio. |
| **Ymchwil:** Ymchwil sy'n arwain y byd gyda'r nod o warchod ecosystemau daearol, gwarchod bioamrywiaeth, ac adfer tirweddau diraddiedig. | |
| **Ymchwil Coedwig a Choetir:** | Mae ein hymchwilwyr yn ymwneud â phrosiectau sy'n canolbwyntio ar gadwraeth a rheoli coedwigoedd a choetiroedd yn gynaliadwy. Mae'r ecosystemau hyn yn hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth, storio carbon, ac iechyd y pridd, ac maent dan fygythiad oherwydd datgoedwigo, torri coed a newidiadau i ddefnydd o dir. |

| | |
|---|---|
| **Bioamrywiaeth a Chadwraeth Rhywogaethau:** | Mae ein hymchwilwyr yn canolbwyntio ar warchod rhywogaethau sydd mewn perygl ac adfer cynefinoedd; astudio rolau ecolegol rhywogaethau, deinameg poblogaeth, a'r bygythiadau maent yn eu hwynebu yn sgil colli cynefinoedd, newid hinsawdd, a gweithgarwch dynol. |
| **Ymchwil Diraddio Pridd a Thir:** | Mae'r ffaith bod priddoedd ac ecosystemau tir yn diraddio yn bryder hollbwysig i NDC 15 ac mae ein hymchwilwyr yn ymchwilio i ffyrdd o atal a gwrthdroi diraddio pridd (hynny yw adfer pridd), gwella iechyd pridd, a hyrwyddo arferion defnydd tir cynaliadwy gan gynnwys amaethyddiaeth gynaliadwy. |
| **Gweithrediadau Campws:** Mae ein hymrwymiad i NDC 15 i'w weld yn ein hymrwymiad i leihau ein heffaith ar ecosystemau tir a hyrwyddo bioamrywiaeth. | |
| **Bioamrywiaeth ar y Campws:** | Rydym yn ymroddedig i wella bioamrywiaeth ar ein campws drwy gynnal mannau gwyrdd, plannu rhywogaethau brodorol, a chreu cynefinoedd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Mae ein campws yn cynnwys arferion tirlunio cynaliadwy sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn lleihau'r angen am fewnbynnau artiffisial, ac yn darparu cynefinoedd ar gyfer adar, pryfed a bywyd gwyllt arall. |
| **Arferion Rheoli Tir Cynaliadwy:** | Rydym yn gweithredu arferion rheoli tir cynaliadwy ar ein heiddo, gan gynnwys lleihau'r defnydd o blaladdwyr, arbed dŵr, a hybu iechyd y pridd. Mae ein strategaethau rheoli tiroedd yn canolbwyntio ar warchod yr amgylchedd a hyrwyddo bioamrywiaeth trwy arferion ecogyfeillgar. |
| **Prosiectau Plannu Coed ac Adfer Cynefinoedd:** | Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau plannu coed ac adfer cynefinoedd gyda'r nod o wella bioamrywiaeth ac adfer ecosystemau sydd wedi diraddio. Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at atafaelu carbon, gwella iechyd y pridd, a chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau brodorol. |
| Cynllun Gweithredu Cydnerthedd a Bioamrywiaeth Ecosystemau **(ERBAP)** | Yn 2022-23 bu i ni gwblhau ein gofynion adrodd ar fioamrywiaeth mewn perthynas ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae ein cyflawniadau yn ystod y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys y canlynol: Lluniwyd rhestr lawn o'n coed aeddfed yn 2021 a 2022 i lywio ein strategaeth ailblannu sydd, ynghyd â Coed Caerdydd – sef prosiect canopi trefol Cyngor Dinas Caerdydd – yn bwriadu gwella gorchudd canopi coed yn y ddinas i 25% erbyn 2030. Fel rhan o Gynghrair Werdd GW4, cawsom gyllid ar gyfer prosiect labordy byw a oedd yn ein galluogi i gynnal digwyddiad gyda sesiynau ar reoli coedwigoedd. Ariannodd hyn y cyntaf o'n digwyddiadau plannu coed mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd yn Nhalybont. |
|  | Cefnogon ni ymgyrch #NoMowMay gan Plantlife am y trydydd tro, a oedd o fudd i'r blodau gwyllt a'r bywyd gwyllt, gan chwarae rhan mewn atafaelu ein hallyriadau carbon. Cynhaliwyd arolwg mannau gwyrdd ym mis Rhagfyr 2022 ar y cyd â Grŵp Llywio ERBAP a'n contractwr tiroedd, a hynny i nodi ardaloedd lle gallai ein mannau gwyrdd gael eu "rheoli ar lefel isel" er budd natur a'r amgylchedd. Mae hyn wedi arwain at gymryd camau cadarnhaol gan gynnwys gadael mannau'n wyllt, gohirio tocio llwyni a pherthi, gadael dail wedi cwympo, gwneud pentyrrau o goed ar gyfer bywyd gwyllt a |

| | |
|---|---|
| | gadael ardaloedd o dir heb ei reoli ar gyfer bywyd gwyllt. |
| **Campws Cyfeillgar i Ddraenogod** | Cafodd y Brifysgol Achrediad Arian ym mis Chwefror 2023 am ein gweithgarwch llwyddiannus ar gyfer draenogod a bywyd gwyllt arall. Bu i ni gynnal nifer o ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymgyrch #GadaelyDail, darparu ein gweithdy #CartrefiArGyferBywydGwyllt cyntaf, a threfnu digwyddiadau codi sbwriel. Daethom o hyd i ddraenogod mewn 14 o safleoedd ar draws y Brifysgol. Mae mentrau bioamrywiaeth wedi'u gosod mewn nifer o leoliadau i helpu i gynyddu bywyd gwyllt. Buom yn parhau â sesiynau ymgysylltu â staff a myfyrwyr y brifysgol, yn mynd i ffeiriau myfyrwyr a digwyddiadau lles, ac yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol, ysgolion cynradd a grwpiau sgowtiaid. Ym mis Mawrth, dyfarnwyd Grant Gweithgarwch Cymunedol Awr Ddaear 2023 i ni i gefnogi ein prosiect 'Mini-Hafanau', prosiect sydd â’r nod o annog pobl yng Nghymru i greu cynefinoedd a chartrefi i'r bywyd gwyllt sydd ar eu rhiniog. |

## 3.16 NDC 16: Heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cryf

Rydym yn cefnogi NDC 16 trwy feithrin gwybodaeth, arweinyddiaeth ac arloesedd mewn meysydd sy'n ymwneud â'r gyfraith, llywodraethu, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

**Addysg:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig ar draws gwahanol ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gyfraith, llywodraethu, hawliau dynol, a datrys gwrthdaro.

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** | Mae Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd yn gwneud cyfraniad allweddol at addysg mewn meysydd sy’n ymwneud yn uniongyrchol â heddwch, cyfiawnder, a sefydliadau cryf. Trwy ei rhaglenni gradd, mae myfyrwyr yn dysgu am fframweithiau cyfreithiol, llywodraethu, a phwysigrwydd sefydliadau cryf wrth hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol. Er enghraifft, mae cwrs **LLB y Gyfraith** yn rhoi dealltwriaeth i fyfyrwyr o systemau cyfreithiol, egwyddorion cyfiawnder, a rôl y gyfraith o ran cynnal heddwch a threfn, ac mae cwrs **LLB y Gyfraith a Gwleidyddiaeth** yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â NDC 16 trwy baratoi graddedigion i gyfrannu at ddatblygu sefydliadau cryf, sefydliadau atebol a systemau cyfreithiol teg. Mae’r **MA Cysylltiadau Rhyngwladol** yn archwilio llywodraethu byd-eang, diplomyddiaeth, a datrys gwrthdaro rhyngwladol, gan fynd i'r afael â phynciau fel cyfraith ryngwladol, hawliau dynol, ac adeiladu heddwch, sy'n hollbwysig i alluogi myfyrwyr i gyfrannu at fentrau heddwch a chyfiawnder ledled y byd. Mae’r **MA Llywodraethu Byd-eang** yn canolbwyntio ar sefydliadau byd-eang a'r rôl maen nhw’n ei chwarae wrth gynnal heddwch a hyrwyddo cyfiawnder, gan sicrhau atebolrwydd a hawliau dynol ar raddfa fyd-eang. Yn olaf, mae’r **LLM Cyfraith Hawliau Dynol** yn darparu hyfforddiant uwch mewn fframweithiau hawliau dynol rhyngwladol a domestig, gan fynd i'r afael â materion fel rhyddid sifil, cyfiawnder cymdeithasol, a'r amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer poblogaethau sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnig dealltwriaeth o sut gall systemau cyfreithiol gefnogi heddwch a chyfiawnder, o fewn ffiniau cenedlaethol ac yn rhyngwladol. |
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Gall myfyrwyr archwilio’r materion cymdeithasol sy’n ymwneud â throsedd, cyfiawnder, a pholisi cymdeithasol trwy’r **BSc Troseddeg a Pholisi Cymdeithasol**, gan fynd i’r afael â NDC 16 trwy ddeall sut gellir gwella systemau cyfiawnder i sicrhau tegwch a lleihau anghydraddoldeb. |

<table>
<tr><td></td><td>Mae’r MSc Troseddau, Diogelwch a Chyfiawnder yn canolbwyntio ar ddeall atal troseddau, polisïau cyfiawnder troseddol, a rôl sefydliadau wrth hyrwyddo diogelwch a diogeledd; ac mae’r MSc Polisi Cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddylunio a gweithredu polisïau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan bwysleisio atebolrwydd, tryloywder a chyfiawnder cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymchwil: Rydym yn ymwneud ag ystod eang o fentrau ymchwil sy'n cyfrannu at NDC 16, gan ganolbwyntio ar hawliau dynol, llywodraethu, diwygio cyfreithiol, a datrys gwrthdaro.</td></tr>
<tr><td>Canolfan y Gyfraith a Chymdeithas Caerdydd (CCLS):</td><td>Rydym yn cynnal ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n archwilio rôl y gyfraith mewn cymdeithas, gan ganolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng sefydliadau cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio cyfiawnder troseddol, archwilio effeithiolrwydd systemau cyfiawnder troseddol o ran hyrwyddo tegwch, hawliau dynol ac amddiffyniadau cyfreithiol, a lleihau anghydraddoldeb; ac astudio sut mae systemau cyfreithiol yn amddiffyn poblogaethau bregus, yn hyrwyddo rhyddid sifil, ac yn sicrhau atebolrwydd.</td></tr>
</table>

| Ymchwil: Parhad | |
|---|---|
| **Canolfan Llywodraethiant Cymru:** | Mae'r ganolfan yn cynnal ymchwil i faterion yn ymwneud â datganoli, cyfraith gyfansoddiadol, a llywodraethu yng Nghymru a'r DU. Mae ei gwaith yn berthnasol i NDC 16 gan ei bod yn mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch llywodraethu, atebolrwydd, a datblygiad sefydliadau gwleidyddol cynhwysol. |
| **Ymchwil ar Ddatrys Gwrthdaro ac Adeiladu Heddwch:** | Mae ein hymchwilwyr yn mynd i'r afael â Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Gwyddorau Gwleidyddol gyda'r nod o ddeall a datrys gwrthdaro rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys prosesau heddwch a datrys gwrthdaro, archwilio sut gall sefydliadau rhyngwladol, llywodraethau, a gweithredwyr anwladwriaethol gydweithio i ddatrys gwrthdaro a meithrin heddwch parhaol, ac ailadeiladu ar ôl gwrthdaro. Ymchwilir hefyd i strategaethau ar gyfer ailadeiladu cymdeithasau a sefydliadau ar ôl gwrthdaro, tra'n hyrwyddo cyfiawnder a chydlyniant cymdeithasol. |

## 3.17 NDC 17: Partneriaethau i gyflawni'r nodau

Rydym yn cydweithio ar draws sectorau, disgyblaethau, a ffiniau i yrru cynnydd tuag at y nodau datblygu cynaliadwy trwy addysg, ymchwil, a gweithgareddau gweithredol.

### Addysg

Mae nifer o'n rhaglenni academaidd yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a phartneriaethau byd-eang wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang.

| | |
|---|---|
| **Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth:** | Mae'r **MA Cysylltiadau Rhyngwladol** yn canolbwyntio ar lywodraethu byd-eang, sefydliadau rhyngwladol, a diplomyddiaeth, gan alluogi myfyrwyr i ddysgu sut gall partneriaethau rhyngwladol fynd i'r afael â materion byd-eang, tlodi, newid hinsawdd, ac anghydraddoldeb. Mae'r **LLM Cyfraith Fasnach Ryngwladol** yn archwilio'r fframweithiau cyfreithiol sy'n rheoli masnach fyd-eang a'u rôl mewn datblygiad economaidd, a sut gall busnesau hwyluso arferion masnach deg, twf economaidd cynaliadwy, a chyflawniad y Nodau Datblygu Cynaliadwy. |
| **Ysgol Busnes:** | Mae Ysgol Busnes Caerdydd wedi llofnodi menter PRME y Cenhedloedd Unedig, sy'n hyrwyddo addysg rheolaeth gyfrifol ac sy'n cysoni addysg fusnes â nodau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys NDC 17. Trwy wreiddio arweinyddiaeth foesegol, cynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol yn y cwricwlwm, mae Ysgol Busnes Caerdydd yn meithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr a fydd yn cyfrannu at bartneriaethau byd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r **MSc Rheoli Ryngwladol** yn paratoi myfyrwyr i weithio mewn sefydliadau rhyngwladol, gan bwysleisio cydweithio trawsffiniol a phartneriaethau rhyngwladol, ac yn cwmpasu pynciau sy'n cynnwys cadwyni cyflenwi byd-eang, masnach ryngwladol, ac arferion busnes cynaliadwy.<br>Mae'r **MBA (Meistr Gweinyddu Busnes)** yn cynnwys ffocws cryf ar fusnes byd-eang a rôl partneriaethau wrth yrru datblygiad cynaliadwy. |
| **Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol:** | Mae'r **MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus** yn mynd i'r afael â rôl partneriaethau cyhoeddus-preifat a chydweithrediad rhyngwladol wrth ddatblygu polisïau effeithiol, gan archwilio sut gall ymdrechion cydweithredol |

| | |
|---|---|
| | rhwng llywodraethau, y sector preifat, a chymdeithas sifil fynd i'r afael â heriau byd-eang.. |

| | |
|---|---|
| **Ymchwil:** Mae nifer o brosiectau ymchwil yn canolbwyntio ar adeiladu partneriaethau ar draws disgyblaethau, sectorau, a ffiniau i fynd i'r afael â heriau byd-eang, gyda llawer o ymchwil y brifysgol wedi'i chynllunio i annog cydweithio rhwng sefydliadau academaidd, llywodraethau, cyrff anllywodraethol, a diwydiant: | |
| **Canolfan Llywodraethiant Cymru:** | Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru yn cynnal ymchwil i faterion yn ymwneud â llywodraethu, datganoli, a pholisi cyhoeddus, yn aml mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Mae ei gwaith yn cefnogi NDC 17 drwy archwilio sut gall strwythurau llywodraethu cydweithredol wella prosesau gwneud penderfyniadau a gweithredu polisïau, ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol.<br>Partneriaethau Llywodraeth Cymru:<br>Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar brosiectau amrywiol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, cyfiawnder cymdeithasol, a datblygiad economaidd. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu at NDC 17 drwy gefnogi polisïau a mentrau cyhoeddus sy'n cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae ymchwil ac arbenigedd y brifysgol yn helpu i lywio strategaethau'r llywodraeth ar faterion fel gweithredu ar yr hinsawdd, iechyd y cyhoedd, ac anghydraddoldeb cymdeithasol. |
| **Ein Partneriaethau Ymchwil:** | Mae Prifysgol Caerdydd yn ymwneud â phartneriaethau ymchwil graddfa fawr amrywiol, sy'n cyfrannu at NDC 17 drwy feithrin cydweithio ar draws disgyblaethau a sectorau. Ymhlith y partneriaethau nodedig mae **Prosiectau Horizon 2020 a'r Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (GCRF).** Rydym wedi bod yn gyfranogwr nodedig yn fframwaith ymchwil Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd, gan gydweithio â phrifysgolion, diwydiannau, a llywodraethau ledled Ewrop ar brosiectau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, technoleg ac arloesi. Mae ein rhan ym mhrosiectau GCRF wedi golygu bod modd canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau byd-eang trwy bartneriaethau rhwng ymchwilwyr yn y DU a sefydliadau mewn gwledydd sy'n datblygu, sy'n rhychwantu meysydd fel gwytnwch hinsawdd, iechyd y cyhoedd, a datblygu cynaliadwy. |
| **Gweithrediadau Campws:** Rydym yn dangos ein hymrwymiad i NDC 17 trwy bolisïau a fframweithiau sefydliadol sy'n pwysleisio cynaliadwyedd a chydweithio byd-eang. | |
| **Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol:** | Mae gennym Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol sy'n ceisio cysoni ein gweithrediadau a'n gweithgareddau â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu partneriaethau gyda llywodraethau, busnesau, a chymdeithas sifil i gyflawni'r nodau cynaliadwyedd. Mae ymrwymiad y brifysgol i gynaliadwyedd hefyd yn amlwg yn ei phartneriaethau ag awdurdodau lleol, diwydiant, sefydliadau lleol, rhanbarthol a rhyngwladol. |
| **Mentrau Campws Cynaliadwy:** | Rydym wedi rhoi sawl menter campws ar waith sy'n dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a phartneriaethau, gan gynnwys gweithio gyda chynghorau a sefydliadau lleol i hyrwyddo seilwaith gwyrdd, lleihau allyriadau carbon, a meithrin cydweithio ar brosiectau cynaliadwyedd amgylcheddol. |

# 4.0 Mesur cynnydd

## 4.1 Safleoedd Effaith Uwch Times

Mae Safleoedd Effaith THE yn mesur sut mae Prifysgolion ar draws y byd yn ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae prifysgolion yn gallu mewnbynnu gwybodaeth am eu gwaith i'r Times Higher Education (THE) ers 2019. Dyma'r drydedd flwyddyn i Gaerdydd gymryd rhan.

Yn 2023 cyrhaeddom safle 52 o blith 1591 o sefydliadau ledled y byd. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â 2022, lle roedd y brifysgol yn safle 101-200 o blith 1410 o sefydliadau.

**Gwellodd ein sgôr gyffredinol o 88.5% i 91.2%.**

Ar gyfer safle 2023, cyflwynodd Caerdydd ddata ar gyfer deg Nod Datblygu Cynaliadwy, sef yr un rhai â'r llynedd. Mae'r sgôr gyffredinol yn cynnwys ein sgoriau ar gyfer NDC 17 a thri o'n Nodau Datblygu Cynaliadwy gorau. Ar gyfer 2023, NDC 12, NDC 14 a NDC 15 oedd y rhain.

Am y tro cyntaf, mae gennym Nod Datblygu Cynaliadwy yn y 10 uchaf (Nod Datblygu Cynaliadwy 14: Bywyd Dan Ddŵr) a thri yn y 25 uchaf. Roedd gan Gaerdydd bedwar NDC yn y 50 uchaf, o gymharu â thri yn 2022:

- **NDC14:** Bywyd dan Ddŵr – 6$^{ed}$, i fyny o 55ain (y 12.4% uchaf yn fyd-eang) a 1$^{af}$ yn y DU
- **NDC15:** Bywyd ar y Tir – 11$^{eg}$, i fyny o 26$^{ain}$ (y 14.4% uchaf yn fyd-eang) ac yn 4$^{ydd}$ yn y DU
- **NDC12:** Defnyddio a Chynhyrchu Cyfrifol – 24$^{ain}$, i fyny o 90$^{ain}$ (y 3.6% uchaf yn fyd-eang) a 12$^{fed}$ yn y DU.
- **NDC3:** Iechyd a Lles Da – 31$^{ain}$, i fyny o 41$^{fed}$ (y 5.2% uchaf yn fyd-eang) a 1af yn y DU

NDC13: Gweithredu ar yr hinsawdd – 60$^{fed}$ safle (6% uchaf yn fyd-eang) a 17$^{eg}$ yn y DU. Symudodd y brifysgol hefyd i'r 100 uchaf ar gyfer Nod Datblygu Cynaliadwy 17, sy'n orfodol. O blith y deg o Nodau Datblygu Cynaliadwy a gyflwynwyd, bu i saith wella eu safle, a gwelwyd y newid mwyaf yn Nod Datblygu Cynaliadwy 12, sef Defnyddio a Chynhyrchu Cyfrifol, a aeth i fyny 66 o leoedd, gan ddychwelyd i sgôr debyg i'r sgôr yn y cyflwyniad cyntaf yn 2021. Roedd pob NDC a gyflwynwyd yn y chwartel uchaf ac eithrio NDC8 Twf Economaidd.

## 4.2 Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd ar gyfer Cynaliadwyedd

Roedd Caerdydd yn 25$^{ain}$ safle yn Rhestr QS o Brifysgolion Gorau'r Byd ar gyfer Cynaliadwyedd 2023, a gyhoeddwyd ar 26 Hydref 2022. Y meysydd â'r sgôr uchaf oedd Ymchwil Amgylcheddol (87.6), Iechyd a Lles (88.6) a Chyfnewid Gwybodaeth (83.2).


Hon oedd blwyddyn gyntaf Rhestr Gynaliadwyedd QS. Aseswyd y 700 o brifysgolion gan ddefnyddio methodoleg a oedd yn cynnwys dangosyddion a luniwyd i fesur gallu sefydliad i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) mwyaf y byd.


Rhennir y dangosyddion yn fesurau cynaliadwyedd amgylcheddol – gan gynnwys sefydliadau cynaliadwy, addysg gynaliadwy ac ymchwil gynaliadwy – a mesurau effaith gymdeithasol, sy'n cynnwys cydraddoldeb, cyfnewid gwybodaeth, effaith addysgol, cyflogadwyedd a chyfleoedd, ac ansawdd bywyd.

## 4.3 Llais y Myfyrwyr

Mae llais y myfyrwyr yn darparu gwerthusiad pellach o'n gwaith cynaliadwyedd fel sefydliad. Rydym yn casglu adborth gan fyfyrwyr trwy Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, yr Arolwg o Ôl-raddedigion a Addysgir, a'r Arolwg o Brofiadau Ymchwil Ôl-raddedig, drwy gwestiynau dewisol perthnasol am gynaliadwyedd amgylcheddol (y rhai rydym yn optio i mewn iddynt ar hyn o bryd). Nodir bod cyfyngiadau hysbys yn gysylltiedig â'r data hwn, gan gynnwys tuedd oherwydd natur ddewisol y cwestiynau yn ogystal â dyfnder dealltwriaeth myfyrwyr o ystyr cynaliadwyedd amgylcheddol. Dim ond gwella dylai'r ddealltwriaeth gydag amser, wrth i ni weld rhaglenni astudio yn ymrwymo i ddarparu gwybodaeth sy'n greiddiol i holl brofiad myfyrwyr, wedi'i hysgogi gan welliannau i gynllun rhaglenni, tra mai dim ond trwy newidiadau i arolygon cenedlaethol y gellir mynd i'r afael â'r mater cyntaf.

Darperir adroddiadau ar hyn ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf isod:



DS: CU – Prifysgol Caerdydd / AHSS – Coleg y Celfyddydau Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol / NLS – Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd / PSE – Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg.

Cyflawniad o 80% fel sefydliad ar gyfer hyn – gellid ystyried y meincnod ar gyfer agweddau eraill ar adborth myfyrwyr.